PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 458 | Ebrill 2023



**Gwobr i Felicity**

t.16

**Noson i gofio Lyn**

t.9



**Rhydypennau yn croesawu Tim Peake**



t.20

## Cerddwyr Rhydypennau



Cafodd Cerddwyr Rhydypennau, dan arweiniad eu tywysydd Rees Thomas, dywydd ardderchog ar gyfer eu taith ddiweddar i Bumlumon. Dyma'r criw ger y copa, yn mwynhau'r olygfa.

## Ennill cadair



Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris ar ennill cadair Eisteddfod Gadeiriol Llangadog a'r cylch ar Ebrill 8. Y beirniad oedd Tudur Dylan Jones a'r testun - telyneg ar "Aberth neu Cyfaill".



## Ennill Medal Gelf

Llongyfarchiadau i Seren Jenkins, Ceri, Waunfawr a Garej Tŷ Mawr Penrhyn-coch ar ennill y Fedal Gelf am y darn gorau o gelf yn yr Eisteddfod Ryng-golegol eleni.

## Priodas

Ar ôl y siom o ohirio wythnos cyn cau y wlad oherwydd Covid yn 2020 a newid lleoliad deufis yn ôl o'r diwedd priodwyd Lowri Morgan a Craig Gore ddydd Sadwrn 15fed o Ebrill yng Nghapel Brondeifi, Llanbed gan ddilyn gyda Gwledd Briodas yng Ngwesty'r Falcondale, Llanbed yng nghwmni eu teuluoedd a ffrindiau a'u merch fach 17 mis oed Aria Lili. Mae Lowri, wedi ei geni a'i magu yn y pentref, yn ferch i Peter a Glenys, Tir-y-dail a Craig yn fab I Neville (Dusty) Gore, Comins-coch a Kay O'Sullivan, Sbaen. Yn wreiddiol o ardal Aberpennar ac wedi byw yn ardal Aberystwyth am sawl blwyddyn cyn cwrdd â Lowri. Ymgartrefodd y ddau yn 5 Maes Seilo, chwe mlynedd yn ôl gyda'u ci Chappie a daeth Aria wedyn i'w bywyd yn Hydref 2021. Mae Lowri yn Swyddog Gweinyddol gyda Mudiad Meithrin Cymru a Craig yn Saer Coed gyda chwmni lleol MEM. Dymuna Lowri a Craig a'u teuluoedd ddiolch yn fawr iawn am yr holl gyfarchion maent wedi eu cael dros y penwythnos.



# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**RHIFYN MAI Dyddiad cau** Mai 5 **Dyddiad cyhoeddi** Mai 17

**EBRILL 17** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn ailagor.

**EBRILL 20** Nos Iau Cyfarfod cyhoeddus: Diogelwch ffyrdd yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30

**EBRILL 21-22** Nos Wener a Dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

**EBRILL 21-23** Dyddiau Gwener i Sul Gŵyl Crime Cymru yn Aberystwyth. Manylion yma https://gwylcrimecymrufestival.co.uk/cy/

**MAI 11** Nos Iau Eisteddfod Calan Mai, Aberystwyth ym Morlan

**MAI 11** Nos Iau Cyfarfod Blynyddol Neuadd Rhydypennau am 7.30pm

**MAI 13** Dydd Sadwrn Ffair Lyfrau Aberystwyth yn y Morlan rhwng 10.00 – 4.00 Mynediad: £1.00

**MAI 16** Nos Fawrth Arddangosfa gan Linda Garratt Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.00

**MAI 18** Nos Iau Cyfarfod blynyddol Cyngor Cymuned Melindwr yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.30. Croeso cynnes i bawb.

**MAI 19-21** Dyddiau Gwener i Sul Twrnament Eric ac Arthur Thomas ac Gae Baker, Penrhyn-coch Cystadleuaeth newydd sbon i'w chwarae o dan y llif oleuadau ar y nos Wener, grŵp oedran 16-19 oed.

# Y Cinio Mawr – Mehefin 2023!

Mae Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn gwahodd darllenwyr eich papur bro i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr! Cynhelir y Cinio Mawr bob Mehefin, fel rhan o 'Mis y Gymuned'. Mae'n esgus da i bawb ddod at ei gilydd er mwyn dod i adnabod eich cymodgion yn well, cymdeithasu a dathlu eich cymuned chi. Llynedd daeth bron i 700,000 o bobl at ei gilydd yma yng Nghymru i gymryd rhan yn Y Cinio Mawr!

Mae'n syml! Gallwch drefnu paned gyda'ch cymydog, picnic yn y parc, barbeciw yn yr ardd, parti ar y stryd neu mewn neuadd leol…beth bynnag sydd ore i chi a does dim rhaid gwario!

Pryd? Mae penwythnos swyddogol Y Cinio Mawr eleni ar y 3-4 o Fehefin, ond gallwch drefnu eich Cinio Mawr unrhyw bryd ym Mehefin. Am syniadau, ryseitiau a mwy ewch i www.yciniomawr.com i archebu pecyn digidol a dwyieithog am ddim. Cofiwch gofrestru eich digwyddiad ar ein map ar y wefan hefyd, er mwyn inni gadw llygad ar y datblygiadau cyffrous ar hyd a lled Cymru!

Cofiwch rannu eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni! #YcinioMawr Facebook/Instagram/Twitter: Eden Communities Cymru bfutia@edenproject.com


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


YTincer@googlemail.com

## 30 mlynedd yn ôl



Rhai o aelodau Urdd Gwragedd Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch, gyda'r telynor Robin Huw Bowen yn ystod eu noson Cawl a Chân i ddathlu Gwyl Ddewi yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch yn ddiweddar. (o *Dincer* Ebrill 1993)

## Trefeurig

**Penodi Prif Weithredwr**

Yn ystod y mis penodwyd Dr Owen Roberts yn Brif Weithredwr Plaid Cymru. Magwyd Owen yn Bow Street ac mae'n byw ar hyn o bryd gyda'i deulu ym Mhen-bont Rhydybeddau. Graddiodd o brifysgolion Efrog ac Aberystwyth, ac wedi hynny treuliodd ddeng mlynedd yn darlithio mewn hanes modern, yn bennaf yn ymchwilio ac yn dysgu hanes cymdeithasol a gwleidyddol Cymru. Mae Owen wedi cyflawni nifer o rolau ymgyrchu a threfnu i Blaid Cymru, yn lleol ac yn genedlaethol. Treuliodd gyfnod fel Pennaeth Ymchwil a Chyfathrebu i Elin Jones AS pan oedd Elin yn ddirprwy arweinydd Plaid Cymru ac yn llefarydd ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn fwy diweddar, mae Owen wedi'i gyflogi mewn rôl uwch reoli mewn asiantaeth sy'n gweithredu ar ran ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd Cymru, yn hyrwyddo bwyd Cymreig a'r brand Cymreig, yn gyfrifol am gyfathrebu, materion allanol, a digwyddiadau mawr.

Wrth gyhoeddi'r penodiad, dywedodd Marc Jones, Cadeirydd Plaid Cymru:

"Mae gan Owen gyfoeth o brofiad, brwdfrydedd a syniadau i gynyddu cefnogaeth i'r Blaid ac rwy'n hynod o falch o fod yn ei groesawu i'w rôl newydd fel Prif Weithredwr.

Mae Owen yn rhywun sydd wedi gweithio'n wirfoddol ar bob lefel o'r Blaid yn ogystal â threulio cyfnod fel aelod staff i Aelod etholedig. Mae ganddo ddealltwriaeth gwirioneddol o'r aelodaeth ar lawr gwlad ac mi rydw i'n edrych ymlaen at gyd-weithio â fo a gweddill y staff i ddatblygu'r Blaid ymhob rhan o Gymru."



**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mai Hughes, Trawsnant, ar farwolaeth cefnder – Gwyn Hughes o Arthog.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mawrth 2023

**£25** (Rhif 194) Sian Mari Lloyd, Deilyn, Cefnllwyd
**£15** (Rhif 108) Margaret Rees, Seintwar, Dolau
**£10** (Rhif 112) Arthur Williams, Penrhiwlas, Goginan

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi.

## Cerddorion Penweddig

Cafodd cyfansoddiadau disgyblion Cerdd eu perfformio a'i recordio mewn gweithdy gan Driawd Llinynnol y BBC. Mae gwaith Iwan Finnigan, Ffion Hughes-Morgan, Elen Edwards, Gwenllian King ac Elain Tanat wedi cael eu dewis i'w perfformio mewn cyngerdd yn Rhosygilwern.

## CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION

### Trefn y rihyrsals – nosweithiau Mercher 7.00

**Ebrill**
**26** – Capel y Morfa


**Mai**
**3** – Seion, Stryd y Popty

**Cymanfa – Sul Mai 7**
10.00. Arweinydd: Efan Williams
Oedfa'r hwyr – 5.30
Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths
Eitemau gan Parti Camddwr yn oedfa'r hwyr

# Y Borth

**Gostwng Cyflymder Cerbydau**
Mae arwyddion wedi ymddangos yn y pentref yn ddiweddar yn nodi y bydd y terfyn cyflymder ar gyfer Glanwern a nifer o strydoedd y Borth yn gostwng o 30mya i 20mya. Ymhlith y strydoedd lle mae bwriad i gyflwyno uchafswm cyflymdra o 20mya y mae'r Stryd Fawr, Cae Gwylan, Cambrian Terrace, Clos Pantyfedwen, Dol-Wen, y lôn yn arwain at y Ganolfan Gymunedol, Ffordd Clarach o'r Nisa hyd at Min y Graig; Heol y Clogwyn, Francis Road, Cliff Drive, Ffordd-y-Fulfran; Clos Winifred, Helo Aberwennol, a Brynrhodyn.

Dywed Cyngor Sir Ceredigion mai'r rhesymau dros gyflwyno'r newid yw er lles diogelwch ar y ffordd; i sicrhau bod cerddwyr, beicwyr ac eraill sydd ddim yn defnyddio cerbyd yn medru defnyddio'r ffyrdd yn fwy diogel ac felly annog teithio llesol a chynaliadwy; i hybu gwell cydymffurfiaeth â'r terfynau



cyflymder is gan fodurwyr a hynny drwy wneud cyflymder is yn fwy cyson ledled ardaloedd preswyl, ac i gyd-fynd â'r newid y mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflwyno o ran y terfyn cyflymder cenedlaethol.


Mae manylion llawn i'w cael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion a dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r cynllun at yr awdurdod erbyn 28 Ebrill.

**Galwad am Stiwardiaid**
Mae Carnifal y Borth yn apelio am stiwardiaid profiadol i gyfeirio ac atal traffig os oes angen yn ystod yr orymdaith ar hyd y stryd fawr ar ddydd Gwener 4 Awst rhwng 1yp a 3yp. Mae angen cwblhau ffurflen yn nodi profiad stiwardio o ran cyfeirio traffig a cherddwyr ar ffyrdd cyhoeddus. Am fanylion pellach, Am fanylion pellach, e-bostiwch gadeirydd Pwyllgor y Carnifal Carol Bainbridge ar carol_bainbridge@yahoo.co.uk.

**Marathon Mam a Mab**
Llongyfarchiadau mawr i Jenny Williamson a'i mab Jonah ar gwblhau marathon Brighton ar ddydd Sul 2 Ebrill o fewn ychydig dros bum awr. Fe redodd y ddau bob cam o'r cwrs 26 milltir gyda'i gilydd.

"Roedd Jonah yn wych am bennu cyflymdra'n rhedeg ac am gefnogi pan oedd pethe'n dechrau mynd yn drech! Diolch i bawb wnaeth ein noddi ac i unrhyw un arall sydd am gyfrannu" meddai Jenny.

Fe lwyddodd y ddau i godi dros £2,250 at ei gilydd gyda Jonah yn



casglu ar gyfer elusen Grassroots Suicide er cof am ffrind agos a Jenny ar gyfer mudiad Amnest Rhyngwladol sy'n diogelu iawnderau dynol.

Mae gan Jenny a Jonah dudalen ar wefan Just Giving ac mae dal modd cyfrannu ar-lein at y ddau achos.
www.justgiving.com/fundraising/jonah-evans
www.justgiving.com/fundraising/jennywilliamson23

**Cydymdeimlo**
Estynnwn bob cydymdeimlad i deulu Zena Mary Elizabeth Swordy (née Maxwell) a fu farw ar ddydd Sul 12 Mawrth yn 95 oed. Fe symudodd Zena i'r Borth yn 2004 i fod yn agos at ei merch, Marie, ac roedd hi'n wyneb cyfarwydd i nifer o bentrefwyr. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Gatholig y Drindod yn Basildon, sir Essex, ar 11 Ebrill. Yn weddw i'r diweddar Ivor ac yn fam i'r diweddar Stephen a Simon, mae'n gadael tri phlentyn sef Andrew a Peter sy'n byw yn Llundain a Marie sy'n byw yn y Borth gyda Michael a'u teuluoedd.

Pob cydymdeimlad i Jean a'r teulu yn Bow Street yn dilyn marwolaeth Iwan Davies, un o hoelion wyth Clwb Golff y Borth ac Ynys-las. Roedd parch mawr ato yn ystod ei gyfnod fel Capten, Llywydd ac un o gefnogwyr mawr y clwb.

Cydymdeimlwn efo Gillian, Hefin a Rob Davies a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam sef Mrs Elizabeth Davies, gynt o Tŷ Canol, Ynys-las.

## Grŵp Henoed y Borth

Cynhaliwyd te parti Dydd Gŵyl Dewi ar 2 Mawrth gyda chwis am Gymru a gwledd o bice ar y maen, bara brith a tharten afalau oll wedi'u pobi gan Margaret Griffiths.

Ar 30 Mawrth, cafwyd gwibdaith i warchodfa natur Nant yr Arian i gael mynd am dro a gwylio'r barcutiaid yn cael eu bwydo.

Bydd cyfarfod nesa'r grŵp ar 13 Ebrill pan fydd cwis a the parti'r Pasg yn cael eu cynnal.

Ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc y Sulgwyn ar 29 Mai, bydd Ffair Elusennau'n cael ei chynnal yn y Ganolfan Gymunedol. Os hoffech gael stondin,



cysylltwch gyda Joy Cook ar 01970 871649. Dim ond i'r sawl sy'n casglu at achos da neu grŵp lleol y mae byrddau ar gael. Bydd y rhan fwyaf o'r stondinau'n derbyn arian parod ar y diwrnod a bydd y digwyddiad ar agor rhwng 10yb a 2yp.

**Digwyddiadau Ynys-las**
Gyda dyfodiad y Gwanwyn a'r tywydd yn gwella, mae Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las wedi trefnu rhaglen o ddigwyddiadau arbennig dros yr wythnosau nesaf. Dyma beth sydd ar y gweill ar gyfer misoedd Ebrill a Mai.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15/04/2023 | *Wales: The Missing Years* (Sgwrs gan John Mason) | 14:00-16:00 | £5 |
| 16/04/2023 | Glanhau'r Traeth | 11:00-13:00 | Am ddim |
| 08/05/2023 | Paentio Tirwedd | 10:00-12:30 | £30 |
| 10/05/2023 | Taith Gerdded Tegeirian | I'w gadarnhau | £5 |
| 13/05/2023 | Ffotograffiaeth Tirwedd | I'w gadarnhau | £40 |
| 19/05/2023 | Paentio Mandala | 10:30-16:00 | £30 |

# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Adran y Menywod**

Cystadleuaeth y Canolbarth

Roedd Clwb y Borth & Ynys-las yn croesawu Cymdeithas Golff Canolbarth Cymru ar yr 18fed o Fawrth. Cystadleuaeth Waltz i dimau o dri oedd hon. Mae dull Waltz o chwarae yn golygu bod 1 sgôr yn cyfri ar y twll cyntaf, 2 ar yr ail a 3 ar y trydydd ac yna parhau a'r patrwm sgorio. Cafwyd diwrnod llwyddiannus gyda 19 o dimau yn cystadlu ar y dydd o glybiau ar draws y Canolbarth - o Aberhonddu i Lanymynech, o Lanfair-ym-muallt i Aberdyfi. Gyda'r tywydd yn sych, ambell ysbaid heulog a braidd dim awel, roedd yn ddiwrnod delfrydol i fod ar y cwrs.

Tîm o'r Borth oedd yn fuddugol sef Mair Jenkins, Jean Harrison a Debbie Jones gyda sgôr o 74. Llongyfarchiadau i'r tair.



Canlyniadau

1. Mair Jenkins, Jean Harrison, Debbie Jones - 74 pwynt
2. Margaret Bowen, Ann Newell, Maggie Cadwallader – Y Trallwng - 69 pwynt
3. Karen Evans, Anna Hubbard, Anne Morris - 66 pwynt
4. Sherrie Edwards, Lisa Hughes, Chris Hughes - Llanfair-ym-muallt - 62 pwynt
5. Sally Wilkinson, Lynne Morris , Mary Upson - Aberdyfi 62 pwynt
6. Ruth Jones, Kay Thomas, Ruth Morris, Borth - 60 pwynt



**Anna Hubbard, cyn Lywydd y Clwb a noddwr y gystadleuaeth yn gwobrwyo enillwyr Llechen Dewi Sant sef Catrin Pugh Jones, Juliet Jones a Barbara Reece. Llongyfarchiadau i'r tîm o dair.**

**Cystadleuaeth Knockout y Gaeaf**

Mewn gornest hynod gystadleuol, Clare Jones o Ddolgellau ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Knockout y Gaeaf gan guro Karen Evans ar y 18fed twll. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy am gyrraedd y ffeinal ac yn arbennig i Clare am ennill Cwpan Horton.

**Adran y Dynion**

Salver Mike Price

Caiff y gystadleuaeth Stableford hon ei chwarae er cof am gyn Lywydd a Chapten y Clwb Mike Price.

Enillwyr

1. Harri Jones - 37 pwynt
2. R Gwynn Jenkins - 36 pwynt
3. Rob Galliford - 36 pwynt.

Canlyniadau eraill adran y dynion

Cwpan Kenneth Jones

1. D Greathead a Gareth Jones - 51
2. H Davies a H Thomas - 47 pwynt
3. Peter Basnett ac Alun Phillips - 46 pwynt

**Buddugoliaeth Rygbi**

Llongyfarchiadau i Menna Pugh Jones a fu'n chwarae i dîm rygbi merched Hwlffordd yn rownd derfynol Powlen Undeb Rygbi Cymru yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd ar 1 Ebrill. Fe enillodd Hwlffordd o 20 pwynt i 17 yn erbyn Clwb Rygbi Cymru Caerdydd. Mae sawl aelod o deulu Menna yn byw yn ardal Y Tincer. Gynt o Maesglas, Capel Dewi, mae Menna bellach yn byw yn Sir Benfro ac yn gweithio yn Ysgol Gyfun Caer Elen yn Hwlffordd.




# Arddangosfeydd Celf

Bydd tad a mab o'r Borth yn dangos eu gwaith celf ar y bandstand yn Aberystwyth ar 29 a 30 Ebrill. Bydd gwaith print gwreiddiol gan Stuart a Jonah Evans yn rhan o arddangosfa gan Argraffwyr Aberystwyth a bydd bron i ugain o stondinau yno hefyd yn gwerthu darnau celf. Mae Jonah yn dilyn cwrs gradd mewn celf gain ym Mryste ar hyn o bryd ac yn cael ei ysbrydoli gan dirwedd ac amgylchedd ei gartref yng Nghanolbarth Cymru, gydag adar ac anifeiliaid gwyllt (fel y dylluan hon) yn ymddangos mewn nifer o'i brintiau leino. Adlewyrchu'r dirwedd yn bennaf y mae Stuart, yn arbennig mynyddoedd a waliau cerrig traddodiadol Cymru.

Bydd arddangosfa o waith Suzanne Harris yn rhif 2 London Place tan 21 Mai. Mae Suzanne yn artist ers 25 mlynedd ac yn byw a gweithio yng Ngorllewin Cymru. Enillodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth gelf MOMA ym Machynlleth yn 2021.





## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 17 Ionawr 2023 yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00pm. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Llewelyn Evans, Mel Evans, Shân James, Richard Owen, Gwenan Price a Meirion Roberts yn bresennol yn yr ystafell ynghyd â'r Clerc; roedd Ceri Evans a Delyth James yn bresennol ar y we.

Materion yn codi: Gwefan newydd y Cyngor – nododd y Cadeirydd fod dau gais tendr wedi eu derbyn, ac wedi ystyriaeth roedd y tendr wedi ei ddyfarnu i gwmni Gwe Cambria, Aberystwyth. Goleuadau stryd – roedd Eirian Reynolds a Richard Owen wedi cyfarfod Simon Bray o Gyngor Ceredigion i drafod sefyllfa goleuadau stryd ym Mhenrhyn-coch. Roedd SB o'r farn fod angen golau newydd ar y sgwâr yn cefnu ar Ger-y-llan, a byddai'r Cyngor Sir yn fodlon talu am osod hwnnw. Roedd hefyd o'r farn y gellid cyfiawnhau cael golau newydd rhwng y Swyddfa Bost a'r bont ger Maesyrefail, ond byddai angen i'r Cyngor Cymuned dalu am ei osod yn ei le. O ran y goleuadau eraill ar y ddwy ffordd drwy'r pentref, efallai y gellid eu gwella drwy gael lampau cryfach arnynt. Penderfynwyd gwneud ymholiadau pellach am gael golau newydd ger Maesyrefail a disgwyl am wybodaeth bellach am gryfhau'r goleuadau presennol. Enwebu llywodraethwr ar gyfer Ysgol Penrhyn-coch – roedd Ceri Evans wedi cytuno i dderbyn yr enwebiad.

Adroddiad y Cynghorydd Sir – roedd Caryl Gruffydd Roberts wedi cylchredeg adoddiad am ei gwaith ar y Cyngor, ac fe atebodd gwestiynau'r aelodau. Cytunwyd mai bob yn ail fis y dylai'r cynghorydd sir ddarparu adroddiad i'r Cyngor Cymuned.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 21 Chwefror 2023 yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00pm. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Delyth James, Richard Owen, Gwenan Price a Meirion Roberts yn bresennol yn yr ystafell ynghyd â'r Clerc; roedd Lowri Emlyn yn bresennol ar y we.

Materion yn codi: Gwefan newydd y Cyngor – roedd y Cadeirydd a Delyth James wedi cyfarfod pobl Gwe Cambria, ac roedd gobaith y byddai'r wefan yn barod erbyn dechrau mis Mai. Goleuadau stryd – dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

Cymorth ariannol i fudiadau – ystyriwyd y ceisiadau blynyddol am gymorth i fudiadau, rhai lleol yn bennaf, a phenderfynwyd gwneud y cyfraniadau canlynol: Brownis Penrhyn-coch £250, Gwefan Trefeurig £100, Cylch Meithrin Trefeurig £250, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penrhyn-coch £250, Neuadd y Penrhyn £200, Cae Chwarae Penrhyn (Patrasa) £250, Cae Chwarae Pen-bont £250, Y Tincer £250, Ffrindiau Tregerddan £200, Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn £250, Ambiwlans Awyr £150, cyfanswm o £2,400.

Cynllunio: Cais A230048, Y Ddôl Fach. Roedd y datblygwr yn gofyn am gael ei ryddhau o un o'r amodau cynllunio. Doedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad i'r cais hwnnw'n benodol, ond prif ofid y cyngor oedd y dylai ffordd y stad gael ei gwella i'r safon mabwysiadu. Roedd cyflwr y ffordd yn wael iawn, a hynny ers blynyddoedd. Roedd yn beryglus i gerddwyr ac i gerbydau. Felly penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i ddweud mai'r prif fater ym marn y Cyngor Cymuned oedd y dylid ar bob cyfrif sicrhau fod y ffordd a'r palmentydd yn cael eu gwella i safon y gellid mabwysiadu'r stad gan y Cyngor Sir.

Unrhyw fusnes arall: Arwyddion Cofeb Dafydd ap Gwilym – gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Comisiwn Henebion i weld a ellid cael arwyddion newydd. Y bont ger Glanceulan – roedd eiddew wedi tyfu dros ochr y bont. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Aled Jones i dynnu'r eiddew rhag achosi ychwaneg o ddifrod i'r bont. Goryrru yn Glanceulan a Dôl Helyg – tynnodd Lowri Emlyn sylw at y goryrru yn y ddwy stad. Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir am hyn a gofyn am ailbeintio'r arwyddion cyflymder yn y ddwy stad.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 21 Mawrth 2023 yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00pm. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Lowri Emlyn, Llewelyn Evans, Delyth James, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price a Meirion Roberts yn bresennol yn yr ystafell ynghyd â'r Clerc. Cafwyd ymddiheiriadau gan Shân James a'r cynghorydd sir.

Materion yn codi: Gwefan newydd – Goleuadau stryd – adroddodd y cadeirydd fod pris wedi'i dderbyn gan Scottish Power Networks am roi cysylltiad trydan i lamp newydd yn agos i Maesyrefail, ac roedd yn disgwyl pris am y lamp ei hun gan gwmni Enerveo. O ran cryfhau golau'r lampau oedd yn bod eisoes, doedd Simon Bray o'r Cyngor Sir ddim bellach yn meddwl y byddai hynny yn gwella'r sefyllfa ryw lawer. Roedd hyn yn newydd siomedig. Fodd bynnag, penderfynwyd y dylem arbrofi gydag un neu ddwy o lampau i weld beth fyddai'r effaith.

Enwi stad newydd – roedd y Cyngor Sir wedi bod mewn cysylltiad ynglŷn a rhoi enw ar y stad newydd y tu draw i Horeb. Awgrym y datblygwr oedd Awel y Mynydd. Y teimlad oedd fod hwn yn enw braidd yn ddigymeriad, un y gellid ei gael mewn llawer man. Penderfynwyd ymgynghori ymhellach am yr enw.

Adroddiad y cynghorydd sir – roedd Caryl Gruffydd Roberts wedi cylchredeg adroddiad am ei gwaith fel cynghorydd a nodwyd y cynnwys.




RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

## Colofn **Ben Lake AS**



Mae hi wedi bod yn fis prysur arall yn San Steffan yn arwain at Gyllideb y Gwanwyn. Mae'n anodd credu ond dyma fy chweched Cyllideb Wanwyn a'r pumed Canghellor ers i mi ddod yn Aelod Seneddol, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef mod i'n dechrau teimlo fel tiwn gron yn Nhŷ'r Cyffredin wrth ymateb i gynlluniau gwario'r Llywodraeth.

Rwy'n parhau i ddadlau'n groch am yr un hen faterion: mwy o fuddsoddiad yn ein hisadeiledd, cryfhau'r economi er mwyn cadw pobl ifanc yn lleol, gwneud y mwyaf o asedau ac adnoddau naturiol y wlad, ond yn fwy na dim sicrhau chwarae teg a chydraddoldeb i gymunedau gwledig.

Ond eleni eto, cafwyd cyllideb siomedig a difflach, heb arlliw o weledigaeth tymor hir gan y Canghellor. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r estyniad i'r Gwarant Pris Ynni hyd at fis Gorffennaf fydd yn atal unrhyw gynnydd ychwanegol i filiau ynni ym mis Ebrill, ond mae'n siomedig iawn bod y Canghellor wedi methu ymestyn Y Cynllun Cymorth Biliau Ynni na'r Taliad Tanwydd Amgen. Trwy ddewis y 'status-quo', mae'r Canghellor wedi colli cyfle euraidd i gynnig y gefnogaeth sydd ei angen ar gartrefi a busnesau oddi ar y grid, a theuluoedd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd yn sgil yr argyfwng costau byw.

Rwyf hefyd yn rhyfeddu na fu unrhyw ymrwymiad yn y Gyllideb i gynnig codiadau cyflog teg i'n gweithwyr yn y sector gyhoeddus, ac mae'n ddychrynllyd na fu unrhyw sôn am wella cysylltedd digidol yn araith y Canghellor. Rhai wythnosau nôl, yn Nhŷ'r Cyffredin, bu i mi gyfeirio at nifer o bentrefi yng Ngheredigion sydd heb fand eang cyflym a heb signal ffôn dibynadwy, sy'n gwbl annerbyniol yn yr oes sydd ohoni. Sut mae disgwyl i ffermwyr gwblhau eu gwaith papur arlein heb fand eang a heb signal 4G, sut mae disgwyl i blant ysgol wneud eu gwaith cartref, a sut mae disgwyl i fusnesau newydd sefydlu yng nghefn gwlad heb fynediad cyflym a dibynadwy i'r rhyngrwyd? Rwyf wedi galw ar y Llywodraeth i flaenoriaethu a buddsoddi yn yr ardaloedd hynny yng Ngheredigion yn rhan o'u cynllun 'Project Gigabit' sydd i fod i wella cysylltedd ar draws y Deyrnas Gyfunol.

Os ydym am wireddu potensial economaidd ein cymunedau gwledig, mae'n rhaid buddsoddi'n sylweddol yng nghysylltedd digidol ac isadeiledd band eang y canolbarth, gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn sylweddol, a buddsoddi mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy arloesol sy'n gweddu'r tirlun a'r cymunedau oddi cwmpas. Galla'i ond gobeithio y bydd y Gyllideb nesaf yn un mwy teg a chydradd i Gymru ac i gefn gwlad.

## Clarach

**Beiciwr prysur**

Griff Lewis – ar y blaen yn yr helmet a'r cit gwyn yn cystadlu yn y ras Bredene Uci 1.2B" yn ddiweddar. Mae Griff mas yng ngwlad Belg gyda'r tim Ribble Recharge U23 am tua pedair wythnos yn gwneud tua tair ras yr wythnos. Bydd yn dychwelyd adre canol Ebrill i ddechrau rasio ym Mhrydain.



## Llandre

**Menter newydd**

Dymuniadau gorau i Huw Meirion a Meinir Edwards, wrth i'r ddau ddechrau ar gyfnod newydd, cyffrous. Yn ystod y mis gadawodd y ddau eu swyddi fel golygyddion – Huw yn y Cyngor Llyfrau a Meinir yn y Lolfa. Nid yw'r ddau'n bwriadu segura, ac edrychwn ymlaen at weld pa brosiectau newydd ddaw o Fancyreithin!

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod




y tincer
YTincer@googlemail.com

# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
**Ebrill**
**23** 10.00 Wyn Rh Morris ym Methel
**30** 2.30 Wyn Rh Morris

**Mai**
**7** Cymanfa ganu Seion Stryd y Popty
**14** 10.30 Peter Thomas
**21** 2.30 Yr Athro Jane Aaron ym Methel
**28** 2.30 Rhidian Griffiths

**Clwb Sul Horeb**
Roedd yn hyfryd gweld un ar ddeg yn bresennol yng Nghlwb Sul Horeb ac yn mwynhau gwneud bocsys bach ar gyfer siocledi i mam ar Sul y Mamau.
Dyma y dyddiadau cyfarfod nesaf.
21 Mai – Clwb Sul Horeb
28 Mai – Clwb Sul Horeb
18 Mehefin – Clwb Sul Horeb



**Cymdeithas y Penrhyn**
Cynhaliwyd cinio blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn Nhafarn y Maes, Capel Bangor nos Sadwrn 18 Mawrth. Cafwyd amser difyr yng nghwmni'r siaradwr gwadd, Catrin M. S. Davies, Tal-y-bont. Dechreuodd drwy ddangos un o'i thrysorau personol, sef hen lun o ferched ei theulu ar ochr ei mam, o ardal Cofadail, a dynnwyd yn stiwdio y ffotograffydd Ebenezer Morgan (1820-1906) yn Aberystwyth.

Hefyd, cafwyd straeon difyr am ei thaith ym Mangladesh wrth baratoi un o raglenni Dylan ar daith ar S4C.

**Marwolaeth beirdd**
A ninnau ar drothwy Eisteddfod Penrhyn-coch 2023 trist oedd clywed am farwolaeth dau o gyn enillwyr y Gadair yma.

Bu farw Les Barker, Bwlchgwyn, ger Wrecsam – enillodd gadair Eisteddfod Penrhyn-coch yn 2017. Cynhaliwyd ei angladd dydd Gŵyl Ddewi. Bu Aled Lewis Evans yn sôn amdano ar raglen Shan Cothi ar y diwrnod.

Roedd Mari Morgan, Tynewydd, Llanrhystud yn enw cyfarwydd yn eisteddfodau Ceredigion a phellach. Bu farw yn dawel ar Fawrth 15 yn 94 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad â theuluoedd y ddau.

**Ymateb twymgalon i argyfwng daeargryn yn Nhwrci a Syria**
Ar ôl gweld y lluniau truenus o Dwrci a Syria yn dilyn y daeargryn nerthol a'r dinistr a greodd, penderfynwyd cynnal Bore Coffi a Stondin gacennau yn Neuadd yr Eglwys ym Mhenrhyn-coch. Daeth tyrfa dda i fwynhau paned a chlonc.

Dymunaf ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd a'u haelioni, ac am bob cymorth yn ystod y bore.

Rhwng y baned, stondin a blwch rhoddion codwyd y swm clodwiw o £620 at Apêl DEC. Swm anhygoel sydd eto yn dangos bod calon ein cymdeithas wedi ei chyffwrdd gan y drychineb. Diolch o galon.
**Elisabeth Wyn**.



**Rhedeg Marathon**
Llongyfarchiadau i Louisa Scannell, Maesyrefail, fu'n rhedeg marathon Paris ar Ebrill 1af er budd Adran Cemotherapi Ysbyty Bron-glais gan lwyddo i godi £1,078. Yn y llun gwelir Quinn yn llongyfarch ei fam.

**Marwolaeth**
Roedd yn drist clywed y newyddion am farwolaeth y Parchedig John Livingstone a fu'n gwasanaethu yn Eglwysi Sant Ioan, Penrhyn-coch; Eglwys Sant Pedr, Elerch, Bont-goch, ac Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor rhwng 2002-2012. Penderfyniad anodd oedd iddo ymddeol o'r fro am resymau iechyd, a dychwelyd i Lys-y-Fran, Sir Benfro. Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf â'i weddw Katherine a'u meibion Tomos a Hywel a'u teuluoedd hwy. Cynhaliwyd yr angladd dydd Sadwrn, 1af Ebrill yn Eglwys Sant Meilyr, Llys-y-frân. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at y 'Paul Sartori Foundation' trwy law Glanmor Evans a'i Fab, Trefnwyr Angladdau, Capel Gorffwys Login, Heol Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PG



## Parti recorders Ysgol Penrhyn-coch 1972

Rhes gefn, chwith i'r dde:Cerys James, Gillian Edwards, Iona Evans, Heather Binks, Susan Jones, Stephen Edwards, Neil Evans, Peris Williams, Carina Jones, Janet Jones, Eleri James, Lucy Huws.

Rhes flaen, chwith i'r dde: Ruth Evans, Hanna Huws, Teleri Roberts, Jane Langford, Cindy James, Louisa Huws. Bu'r parti yn cystadlu yn Eisteddfod Pantyfedwen, Mai 1972.

Diolch i Janet Evans (Panteg gynt) am y llun a'r enwau. Hwyl fawr iddi hi a Cyril sydd wedi symud yn ddiweddar o Gomins-coch i fyw i Wrecsam i fod yn ymyl y mab.




Addurniadau'r Pasg yn Horeb- diolch i aelodau y Clwb Sul am y goeden a Mrs Mairwen Jones am y blodau



**Noson i gofio Lyn**

Rhyfedd iawn yw meddwl fod blwyddyn wedi mynd heibio ers i ni golli Lyn Lewis Dafis yn rhy gynnar o lawer. Nos Fawrth, 14 Mawrth yn Neuadd yr Eglwys ym Mhenrhyn-coch fe gynhaliwyd cwis i godi arian at yr Eglwys ac i gofio Lyn a dau arall o ffyddloniaid Eglwys St Ioan a gollwyd yn ystod y flwyddyn, sef Glyn Collins a Max Jenkins. Pam cynnal cwis coffa o bob dim, meddech chi? Wel, yn ystod y Cyfnod Clo, doedd hi ddim yn bosib cynnal bore coffi bob yn ail wythnos yn Neuadd yr Eglwys fel yr arferid gwneud, ac felly fe benderfynwyd cael cwis ar Zoom yn lle hynny. Lyn oedd y cwisfeistr wrth gwrs, oherwydd ei ddawn gyhoeddus a'i ddoniau helaeth wrth drin cyfrifiadur. Fe gâi Lyn gymorth i lunio'r cwestiynau gan griw o bobl yn eu tro, sef y Canon Andrew Loat, Richard Huws, Glyn Collins, David Lucas a Richard Owen. Felly roedd hi'n addas iawn mai'r pedwar oedd ar ôl o'r criw oedd yn holi yn y cwis, ynghyd â'r Parchg Lynn Rees, Penrhyn-coch.

Roedd criw da wedi dod ynghyd ar gyfer y noson, tua hanner cant, siŵr o fod.

Ar ôl gair o goffâd a gweddi gan y Canon Loat, fe gafwyd cyfarfod hwylus a difyr iawn, ac ar ddiwedd y noson fe ddadorchuddiwyd llun o Lyn a'i roi i hongian yn y Neuadd. Y sawl a beintiodd y llun oedd Iwan Bryn, cyn-gydweithiwr i Lyn yn y Llyfrgell Genedlaethol, a chyfaill agos iddo. Fe beintiodd Iwan y llun yn 2016 a'i roi yn rhodd i Lyn. Ar ôl ei farw, dymuniad y teulu oedd rhoi'r llun yn rhodd i'r Eglwys. Mae'n llun rhagorol iawn, ac yn dyst o ddawn yr artist. Mae'r bore coffi bob yn ail dydd Mawrth wedi ailgychwyn bellach. Felly, os ydych yn rhydd ryw wythnos dewch draw ac fe gewch weld y llun o Lyn yn ei goler wen yn gwenu arnoch.





**Canu'r Pasg**

Aeth criw o 6 o gantorion ati ar ddydd Gwener y Groglith i alw ar drigolion y Penrhyn sy'n ei chael yn anodd mynychu oedfaon, i ddod â chyfarchion ac emynau'r Pasg iddynt. Diweddodd y daith yn Nhyddyn Seilo, lle y cawsom de blasus. Casglwyd £10 tuag at Neuadd y Penrhyn yn ystod y daith. Os oes rhywun â diddordeb mewn derbyn ymweliad neu ganu gyda'r criw pan fyddwn yn trefnu taith arall, gallwch gysylltu ag Eleri James ar 07812 855719.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**

**Tim cyntaf**

*Mawrth*

| | |
|---|---|
| 11 | Penrhyn-coch 2 Alesandra'r Wyddgrug 2 |
| 18 | Penrhyn-coch 0 Tref Treffynnon 5 |
| 25 | Porthmadog 2 Penrhyn-coch 1 |

*Ebrill*

| | |
|---|---|
| 1 | Bae Colwyn 3 Penrhyn-coch 0 |
| 7 | Penrhyn-coch 0 Bae 2 |
| 10 | Llandudno 2 Penrhyn-coch 2 |

**Eilyddion**

*Mawrth*

| | |
|---|---|
| 18 | Eilyddion Llanfair Unedig 1 Eilyddion Penrhyn-coch 3 |
| 22 | Eilyddion Penrhyn-coch 5 Eilyddion Llandrindod 1 |

*Ebrill*

| | |
|---|---|
| 8 | Eilyddion Penrhyn-coch 8 Eilyddion Llanfair Unedig 0 |



**Brownies Penrhyn-coch yn plannu llysiau a blodau yn y Parc gyda diolch i Clare Larke am ei chymorth.**

# Madog

**Marchnad Aberystwyth**
**1 Ebrill 4 Cyfanswm 834**
Sêl lwyddiannus heddiw eto fel yr uchod a popeth wedi'i werthu. Diolch pawb am y gefnogaeth.

Defaid lladd (505) Amcg. £58; Mwy £128 gan Lewis, Fferm Cwmerfyn; eraill hyd £127 gan Evans, Cwmwythig.
Cyplau ŵyn a mamogiaid (20). Gwerthwyd am £95 o stad Evans, Ruel, Bow Street.
Ŵyn blwydd (267) Amcg. £63; Mwy £128 gan Evans, Cef-nllwynpiod, eraill £124 gan Griffiths, Nanty.
Hyrddod (42) Amcg £94; Mwy £180 gan Griffiths, Nanty; eraill o £144 gan Innovis, Peithyll; eraill o £144 gan Innovis.

**Diolch**
Dymuna Eirian Hughes, Lluest Fach, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar achlysur dathlu fy mhen blwydd arbennig yn ddiweddar, a phob galwad ffôn, blodau ac anrhegion. Diolch o galon.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Arthur Hughes, Lluest Fach, ar farwolaeth cefnder – Gwyn Hughes o Arthog.

**Cofion**
Rydym yn anfon ein cofion at Defi John Morris, Y Fronfraith, sydd erbyn hyn wedi symud o Ysbyty Tregaron ac yn derbyn gofal yng nghartref Plas Cwmcynfelyn.



# Goginan



**Ennill achrediad**
Mae Dr Gareth Hoskins o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn un o ddau aelod staff Prifysgol Aberystwyth sydd wedi ennill achrediad Arolygydd Ymchwil Cydnabyddedig Cyngor y DU ar gyfer Addysg i Raddedigion (UKCGE). Mae'r achrediad yn adlewyrchu'r casgliad eang a heriol o swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag arolygu ymchwil modern, ac mae'n cynorthwyo datblygiad arolygwyr yn y sector. Gofynnir i ymgeiswyr adfyfyrio ar ddeg maes yn eu gwaith arolygu, gan ystyried eu cryfderau a nodi meysydd i wella ynddynt.

**Pen blwydd yn 18**
Pen blwydd hapus i Meilyr yn 18 oed ar 17 Ebrill.

**Druid**
Ar nos Sadwrn ym Mis Ebrill cynhaliwyd cystadleuaeth Bingo yn y Druid wedi ei drefnu gyda Nigel Davies, y rheolwr a rhai o bobl y gymuned. Fe wnaethpwyd £202.50 o elw a penderfynwyd ei roddi at Sioe Capel Bangor a'r cylch. Roedd pwyllgor y sioe yn ddiolchgar iawn o'i dderbyn yn eu pwyllgor misol sydd yn cael ei gynnal yn y Druid.



Nigel Davies yn trosglwyddo pres i Rhydian Davies.

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nos.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com






YTincer@googlemail.com Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Mawrth 16. Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Roedd yna ymddiheuriadau oddi wrth tri chynghorwr.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror 2023 fel rhai cywir.

Trafodwyd adroddiad yr archwilydd allanol am y flwyddyn 2021/2022. Mae copi o'r adroddiad llawn ar wefan y Cyngor. Cytunwyd i dalu Aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn 2023/2024.

Mae y Cyngor Cymuned yn awyddus i ddatblygu safle we a hysbysfwrdd digidol newydd ac maent angen cymorth a chyngor gan berson a phrofiad yn y maes hyn. Os oes gan rhywun ddiddordeb ac am gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a'r clerc trwy ebost – cyngormelindwrcouncil@gmail.com

Yn ystod y cyfarfod cytunwyd i gysylltu efo Seren Signs am cwot ynglyn ag arwydd i Ysgol Penllwyn.

Cynhelir cyfarfod Mis Ebrill yn Neuadd Capel Bangor ar nos Iau 20fed am 7.30yh.

Bydd y cyfarfod blynyddol ar nos Iau Mai 18 am 7.30 y.h. yn Neuadd Capel Bangor. Croeso cynnes i bawb.


*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8

whhowells@gmail.com





# **Difyrion Digidol** Deian ap Rhisiart

**Un o brif ddiddordebau ein teulu ni yw natur a bywyd gwyllt a chyda'r Gwanwyn bellach wedi cyrraedd, mae yna fwy o gyfle i fynd tu allan ac ymchwilio gyda apiau adnabod rhywogaethau natur efo'r plant boed wrth adnabod adar, coed neu bilipalod.**

Un o'n nodau ni fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw hybu defnydd o dechnoleg er budd llesiant a iechyd meddwl. Ac mi ydan ni fel siaradwyr Cymraeg yn ffodus iawn fod gennym wefan gynhwysfawr fel Llên Natur i gynorthwyo pobl o bob oed i chwilota a gwerthfawrogi byd natur. (https://www.llennatur.cymru/)

Beth sydd well i iechyd a llesiant ond llond ysgyfaint o awyr iach a gwerthfawrogi bywyd gwyllt ac mae Llên Natur yn adnodd fendigedig i ddatblygu'r diddordeb hwnnw.

Rwyf wedi son am Llên Natur o'r blaen yn fy ngholofnau blaenorol ond heb roi sylw fanwl iddi, ac mae yna gymaint i'w son. Mae'r wefan ei hun wedi'i rhannu yn wahanol adrannau – Y Tywyddiadur, y Bywiadur, yr Oriel, Pytiau fideo, Llyfrgell a Mapiau.

Gan droi at y Tywyddiadur yn gyntaf, mae'r Tywyddiadur yn gwbl rhyngweithiol, ac mae'n caniatau i chi gofnodi a logio'r tywydd sy'n digwydd – mae posib defnyddio'r adnodd chwilio i weld y gwahanol digwyddiadau naturiol e.e. eira mawr neu stormydd eithafol (https://www.llennatur.cymru/Y-Tywyddiadur) fel y mae'r wefan yn egluro "mi allwch rhoi gwybodaeth i fewn iddo, neu chael gwybodaeth allan. Y cam cyntaf y byddwch yn cymryd wrth fentro ar y dudalen hon felly fydd dewis pa un rydych am ei wneud.... Chwilio ynteu Mewnbynnu (blychod chwilio ar y chwith mewn glas, blychod mewnbynnu ar y dde mewn coch)."

Pan ydych yn ansicr o'r enw Cymraeg am rywogaeth arbennig, mae'r Bywiadur yn ganllaw digidol angenrheidiol. "Trysorfa o wybodaeth am y gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion yw'r Bywiadur (https://www.llennatur.cymru/Y-Bywiadur). Mae'n eiriadur rhywogaethau ond yn ogystal cewch hefyd holi'r Bywiadur am enw Cymraeg, Saesneg neu Ladin am unrhyw anifail neu blanhigyn o'r grwpiau mwyaf adnabyddus yng ngwledydd Prydain." Felly, yn ddelfrydol i'r cyw naturiaethwyr yn ein plith. Er enghraifft os y rhown ' Gylfinir' yn y chwiliwr, nid yn unig ceir yr enw Saesneg, Cymraeg a Lladin, ond maent yn cynnwys yr enwau tafodieithol hefyd e.e.

**Gylfinir** - *cornicyll y waun [gweler lapwing]*, *Giarliw*, *chwibanogl y mynydd*, *cwrlig*, *cwrlip*, *chwibanwr*, *glifinir fawr (sir fôn)*… *Numenius arquata*, Curlew.



Mae adran yr Oriel sy'n cynnwys lluniau o bob math sydd wedi eu dewis gan y cyfrannwyr am eu diddordeb amgylcheddol arbennig. Yr hyn sydd yn gwneud yr Oriel yn wahanol i gasgliadau eraill o luniau yw'r capsiynau y mae'r cyfrannwyr yn eu hychwanegu. Gall y capsiwn gynnwys dyddiad a lleoliad y tynnwyd y llun.

Mae yna hefyd bytiau fideo difyr tu hwnt sydd wedi eu llwytho ar safle YouTube Llên Natur www.youtube.com/user/Llennatur sy'n cynnwys cofnodion fideo defnyddwyr yn cynnwys clip o Walch glas yn gwledda ar ddrudwy.

Mae yna hefyd adran Llais sy'n gronfa o sgyrsiau byr "hanes llafar", yn ymdrin â rhyw agwedd ar fyd natur neu'r amgylchedd o fewn profiad personol y sawl sydd yn cael ei gyfweld/chyfweld. https://www.llennatur.cymru/Llais . Mae'r adran fapiau yn storfa arall wych o wybodaeth a'i phwrpas yw cyflwyno gwybodaeth sy'n seiliedig ar leoliad gan geisio amlygu patrymau na fuasent yn amlwg heb eu rhoi ar fap. Cofiwch hefyd ymaelodi â'r gymuned ar Facebook i gofnodi unrhyw arsylwadau ym myd natur, neu i fwynhau a dysgu gan gyfranwyr eraill. https://www.facebook.com/groups/CymunedLlenNatur/

Mae yna lond gwlad o gynnwys ar y wefan hon i'ch cadw'n brysur am ddyddiau. Ewch ati i bori drwyddi! Mwynhewch!

Os ydych angen datrys problem ddigidol neu'n chwilio am hyfforddiant mewn sgiliau digidol, cysylltwch gyda mi deian. apRhisiart@cwmpas.coop

# LLE MAE NHW NAWR?

**Dafydd Rhys Jones sy'n rhoi ei hanes ar gyfer y golofn 'Ble maen nhw nawr?' y mis hwn. Mab Eddie a Bethan Jones - ei dad yn bennaeth Ysgol Rhydypennau ac yn Gadeirydd cyntaf y Tincer. Cawn hanes ei cgwaer Nerys Ann Brown y mis nesaf.**



Gadewais fro'r Tincer yn 1998. Ar y pryd roeddwn yn byw yn Hafod Elerch (Elerch House gynt) ym Mont-goch ac yn gweithio yn Gogerddan. Ymunais â'r Fridfa Blanhigion, fel y gelwid yr adeg hynny, yn syth o'r ysgol i weithio fel Swyddog Gwyddonol Cynorthwyol yn yr adran Agronomeg o dan arweiniad Hamish Munro, Ieuan Davies, Alison Davies a WB Evans, Cross Street, neu "Wil Cae Brwyn" fel y gelwid ef. Yr adeg hynny y nod oedd cynyddu cynhyrchiant tir pori, gan gynnwys tir mynydd, drwy fridio mathau newydd o laswellt a meillion (a dyna oedd gwaith Yncl Dei, Erw las) ac asesu eu haddasrwydd a datblygu dulliau rheolaeth tir glas.

Yn y blynyddoedd cynnar llwyddais i ennill cymwysterau yn y Coleg Addysg Bellach yn Aberystwyth a bûm yn ffodus i ennill ysgoloriaeth prifysgol gan y Cyngor Ymchwil. Ar ôl tair blynedd yn astudio yng Ngoleg Wye ym mherfeddion Caint, dychwelais i'r adran Ecoleg efo gradd mewn llysieueg Amaethyddol. Yn y cyfamser bu damwain Chernobyl a chefais y cyfrifoldeb o arwain prosiect yn asesu dulliau o leihau lefelau cesium ymbelydrol ar dir pori mynyddig yn y Carneddau ac yn Cumbria. Arweiniodd hyn at ymchwil pellach, doethuriaeth PhD a dyrchafiad i fod yn uwch swyddog Gwyddonol.

Gyda thoriadau parhaus yn y gyllideb, penderfynais wirfoddoli am ddiswyddiad o Gogerddan ac ail-hyfforddi yng Nholeg y Normal, Bangor i fod yn athro Bioleg. Tua'r un adeg cyfarfyddais â Dawn o'r Wyddgrug. Priodasom yn Ebrill 1999 a symud i fyw i bentref Pant-y-mwyn yn Sir y Fflint a dechreuais fy swydd ddysgu gyntaf fel athro bioleg yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach cefais ddyrchafiad i fod yn bennaeth bioleg yn Ysgol Gyfun Llangefni a symud eto i fyw yn Llanddaniel-fab ar Ynys Môn. Mae gennym ddwy o ferched, Natasha, sy'n rhingyll yn adran heddlu arfog Heddlu Gogledd Cymru a Carys, sy'n astudio ieithoedd ac sydd ar hyn o bryd yn gwella ei Ffrangeg drwy weithio mewn canolfan sgio yn yr Alpau. Dysgodd Dawn i siarad Cymraeg yn rhugl yng nghanolfan Bedwyr ym Mangor a bu'n gweithio fel athrawes lanw mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Ynys Môn.

Ar ôl chwilio a chwilio, llwyddom i brynu tyddyn Trefnant Bach yn Llanddaniel-fab, sef eiddo efo rhyw 7 a hanner acer o dir pori a llyn. Darganfyddasom bod yna ychydig o hanes i'r lle. Gwelir yr enw Trefnant ar y mapiau o'r canol-oesoedd ac yma hefyd y magwyd Tecwyn Roberts, a oedd yn allweddol i lwyddiant NASA yn anfon dyn i'r lleuad. Ef oedd swyddog deinameg hedfan cyntaf NASA a bu'n gyfrifol am gynllunio stafelloedd rheoli NASA a'r systemau i gyfathrebu efo'r rocedi.

Gyda'n gilydd, llwyddodd Dawn a minnau i adnewyddu ac ymestyn y bwthyn gan wneud y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu ein hunain. Bu tipyn o waith clirio a ffensio tu allan dros y blynyddoedd a llwyddom i fagu diadell fechan o ddefaid Llŷn efo'r hyrddod yn dod o dro i dro o Font-goch o ddiadell Richard, fy nghefnder.

Yn 2020 penderfynais ymddeol yn gynnar o fyd addysg a sefydlu busnes Gwenyn Môn, lle rydym yn magu gwenyn, cynhyrchu a gwerthu mêl, hyfforddi eraill a darparu profiadau cadw-gwenyn. Dechreuais gadw gwenyn rhyw ddeg mlynedd ar hugain yn ôl o dan arweiniad Wil Griffiths,Comins-coch a'r Parch. Elwyn Pryse a bu'n bleser rhoi sgwrs i Gymdeithas Gwenynwyr Cymraeg Ceredigion yn ddiweddar. Teimlwn yn angerddol am dranc y peillwyr a'u cynefin. Nawr roedd yna gyfle i addasu hen stabl yn stafell ddosbarth a chyfuno fy sgiliau addysgu a fy nghefndir gwyddonol. Ar un llaw rydym yn hyfforddi niferoedd sylweddol o wenynwyr newydd bob blwyddyn, tra ar y llaw arall rydym yn darparu profiadau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o arwyddocad a phwysigrwydd gwenyn, peillwyr a bywyd gwyllt yn gyffredinol, a'r hyn y gellir ei wneud yn hawdd i'w diogelu a hyrwyddo eu cynefin. Mae'r busnes yn ffynnu ac mae yna alw mawr am ein mêl ac rydym yn ehangu ein gwenynfeydd ar draws Ynys Môn i ddiwallu'r galw. Mae ein cyrsiau a'n profiadau yn boblogaidd tu hwnt ac erbyn hyn, Gwenyn Môn yw darparwr hyfforddiant a phrofiadau cadw-gwenyn mwyaf blaenllaw Cymru ar sail niferoedd ein cwsmeriaid a'n hadolygiadau. Llynedd cefais y pleser o gael fy nghyfweld ar raglen radio "Bore Cothi" a chawsom gyfle i ddarparu profiad cael blas ar gadw gwenyn ar gyfres deledu "Gwyliau Gartref" ar S4C.

Yma yn Nhrefnant Bach, rydym wedi plannu acer o goed collddail yn benodol er budd y gwenyn ac yn y broses o newid y ddiadell Llŷn am rai Swydd Amwythig, gan na fyddant yn pori ar y coed. Eleni ar 7fed Mai ac ar 9fed Medi bydd Tyddyn Trefnant Bach ar agor i'r cyhoedd o dan y cynllun gerddi agored cenedlaethol i godi arian tuag at elusenau gofal iechyd a'r elusen "Bees for Development" sy'n hyfforddi ac yn cefnogi gwenynwyr mewn gwledydd trydydd byd.

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Roedd 5 o gynghorwyr cymuned yn bresennol, ynghyd â'r Cynghorydd Paul Hinge, yn y cyfarfod, 30 Mawrth. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 23 Ionawr fel rhai cywir.

Trafodwyd:

- Gwefan newydd y Cyngor, sydd yn symud yn ei blaen yn dda; gobeithio y bydd yn fyw erbyn diwedd Mai.
- Hysbysfwrdd y Cyngor ger siop Spar – mae bellach yn llawn gwybodaeth. Dylid cysylltu â'r Clerc os oes rhywun am ychwanegu ato.
- Diffibrilwyr – bydd rhai'r pentre'n cael eu checio'n rheolaidd a gobeithio bod modd cael diffibrilwr yn Llangorwen.
- Cael bin baw ci yn Llangorwen.
- Hyfforddiant i'r Cynghorwyr – mae un cynghorydd wrthi'n mynychu'r sesiynau anwytho ac anogwyd y cynghorwyr eraill i'w mynychu.
- Grantiau i adnewyddu parc Tregerddan. Mae gan y Cyngor sawl syniad cyffrous, a bwriedir parhau i ymchwilio i'r grantiau sydd ar gael.
- Clarach – mae perchnogion safle gwyliau Aber Bay yn bwriadu neilltuo llefydd parcio cyffredinol ar darmac ger y traeth.
- Os yw'r neuadd yn cynnal digwyddiad yn fuan, dylid trefnu bod aelodau'r Cyngor yn bresennol er mwyn i bobl y gymuned daro heibio am sgwrs.
- Tendr torri gwair yn y gymuned – mae'r cytundeb presennol yn dod i ben yn Ebrill 2024, a bydd yr un nesa'n para am 3 blynedd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**: 27 Ebrill

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Capel Llwyn-y-groes**
Erbyn hyn mae Capel Llwyn-y-groes wedi ei werthu i Statkraft drws nesaf. Edrychwn ymlaen am y bennod nesaf yn hanes yr adeilad bach.

**Trên bach y Rheidol**
Hyfryd yw clywed sŵn y trên bach y Rheidol unwaith eto, arwydd bod yr haf yn agosáu. Mae yna ddau gerbyd dosbarth cyntaf eleni ac mae y cyfan wedi ei baentio yn goch a hufen, lliwiau traddodiadol y lein fach ond sydd heb ei gweld ers 1956. Mae swyddfa docynnau newydd wedi agor yn y dref a mae yna nifer o gynlluniau eraill ar y gweill. Edrychwn ymlaen.

**Urdd y Gymuned**
Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol yn y Ganolfan Groeso pryd y daeth nifer o aelodau ynghyd. Etholwyd swyddogion a ffurfiwyd pwyllgor a fydd yn paratoi rhaglen am y gaeaf.

**Rhifyn Mai**
Dyddiad cau: Mai 5
Dyddiad cyhoeddi: Mai17

**y tincer**
YTincer@googlemail.com

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

Gwe Cambrian Web
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.
Cysylltwch heddiw!


Gwe Cambrian Web
cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

# Capel Bangor / Pen-llwyn



**Suliau Penllwyn**

*Ebrill*

**23** Parch Wyn Rhys Morris 2.00
**30** Parch Judith Morris 5.00

*Mai*

**7** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion, Capel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth
Cyfarfod y Plant am 10.00
Cyfarfod yr hwyr am 5.00
**14** Oedfa yr Ofalaeth, Capel y Garn 10.00
**21** Dr. Rhidian Griffiths am 10.00
**28** Dr. Watcyn James (Sul y Pentecost) 2.00

**Dod i oed**

Llongyfarchiadau i Luned Jones, Tangeulan ar ddathlu ei phen blwydd yn ddeunaw oed ar yr 8fed o Ebrill; dymuniadau gorau wrth i ti wneud dy arholiadau Lefel A ym mis Mehefin, ac hefyd i'r dyfodol.

**Yn yr Ysbyty**

Dymuniadau gorau am wellhad buan I Mr. Jo Evans, Dolypandy sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Hyderwn y byddwch yn ol adre yn fuan iawn.

**Pen blwydd sbesial**

Llongyfarchiadau i Richard Edwards, 2 Stad Pen-llwyn ar gyrraedd oed arbennig yn ddiweddar. Dymuniadau i'r dyfodol.

**Gradd Doethuriaeth**

Llongyfarchiadau calonnog i Anna Young, Islwyn, wrth iddi dderbyn Gradd Doethuriaeth ym maes Llenyddiaeth ac Astudiaethau Rhywedd o Goleg Prifysgol Oslo, Norwy, Fe dreuliodd Anna ran helaeth o'i phlentyndod yn yr ardal, ac yma y dechreuodd ei haddysg gynradd yn Ysgol Pen-llwyn, cyn symud gyda'i Mam i Norwy. Mae Anna wedi gwneud yn siwr ei bod yn cadw cysylltiad a'r ardal wrth iddi dreulio pob gwyliau haf, pan yn yr ysgol a'r coleg, adre gyda'i thad yn Islwyn.

Mae arholiadau Doethuriaeth yn wahanol iawn yn Norwy i'r rhai yma yng Nghymru, gan eu bod yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Roedd yn rhaid i Anna roddi darlith, ac yna amddiffyn ei gwaith gorffenedig ysgrifenedig o flaen cynulleidfa o bobl, Ar ôl iddi raddio cyflwynwyd hi a dau dusw o flodau gan y Coleg.

Mae Anna yn werthfawrogol o'i haddysg yn Ysgol Pen-llwyn ac yn bwriadu ymweld â'r ardal yn fuan, y tro yma gyda'i merch, Connie, sydd yn bedair oed.

**Ymddangosiad Teledu**

Hyfryd oedd gweld Alistair Dryburgh ar y teledu yr wythnos hon. Mae Alistair yn ymddiddori mewn hen geriach ac yn gweld gwerth mewn dodrefn efallai y byddem fel cyhoedd yn ei dibrisio. Y Sadwrn o'r blaen roedd diwrnod agored ganddo yn Siop Exchange a chafodd dipyn o ymwelwyr yn galw heibio. Mae llygad da am fargen ganddo ac yn gwybod ei bethau, pob dymuniad da ymlaen.

Da hefyd oedd clywed Ioan Evans, ŵyr i Mrs. Doreen Davies Glasfryn ar raglen Troi'r Tir y Sul o'r blaen. Mae Ioan yn arbenigo mewn Gwaith Gofaint ac yn teithio yn eang rhwng sawl sir er boddhad i'w gwsmeriaid.

# Adolygiad




Ifor ap Glyn. *'Anwyl Fam': Pererindod drwy'r Rhyfel Mawr*. Gwasg Carreg Gwalch £9.95 381t.

Dyma'r diweddaraf mewn nifer o lyfrau a gyhoeddwyd yn sgil canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yr hyn sy'n gwneud y llyfr yma'n wahanol yw bod Ifor ap Glyn yn mynd ar 'bererindod' ar ran y fam Margaret Jones i olrhain taith ei mab Capten Dafydd Jones o'i fagwraeth yn Llanio yng Ngheredigion hyd at ei farwolaeth ym mrwydr Coedwig Mametz. Roedd tad-cu'r awdur yn gyd-ddisgybl i Kitchener Davies yn Ysgol Uwchradd Tregaron ac mae'n debyg mai'r cysylltiad teuluol hwn a'i ddenodd at hanes y Capten yn ogystal a'r ffaith fod llythyrau y Capten Dafydd Jones oedd hefyd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Tregaron yn gofnod mor fyw o wasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y Capten Dafydd Jones yn fab i Thomas a Margaret Jones, Wern Isaf, Llanio ac ysgrifennodd chwe deg o lythyrau at ei fam. Yn ôl Ifor ap Glyn mae'n debyg bod dynion chwe gwaith yn fwy tebygol o ysgrifennu at eu mamau nag at eu tadau.

Rhaid pwysleisio mai nid casgliad o lythyrau sydd yn y llyfr difyr hwn ac nid cofiant yw'r llyfr chwaith. Mae'n llawer mwy na hynny. Disgrifir y llyfr gan yr awdur fel 'ymgais i ddeall y Rhyfel o safbwynt personol ac fel 'pererindod' i'r llefydd a ddisgrifwyd mor fyw gan Dafydd yn ei lythyrau at ei fam ac ar gyfartaledd ysgrifennodd Dafydd lythyr bob wythnos ati o Ffrainc. Mae'r awdur wedi ymchwilio'n eang i'r cyfnod ac i gefndir Dafydd ac o ganlyniad cawn ddadansoddiad diddorol o'r oes yr oedd yn byw ynddi, sut yr ymatebodd y myfyriwr ifanc yng Ngholeg Aberystwyth i'r sefyllfa a wynebodd miloedd o fechgyn ifanc eraill yn 1914 a disgrifiad byw o wasanaethu yn y ffosydd.

Mae'r arddull yn hyfryd o sgyrsiol a llwydda Ifor ap Glyn i'ch tywys ar y 'bererindod' bersonol fel petaech chi'n llythrennol yn ei gwmni. Cyd-deithiwn gyda'r awdur o Lanio i Ysgol Uwchradd Tregaron ac ymlaen i Goleg Aberystwyth ac yna i ystafell 17 yn y Queen's Hotel yn y Rhyl ble ddechreuodd Dafydd ar ei yrfa milwrol a ble ysgrifennodd ei lythyr cyntaf at ei fam. Mae'r llythyr cyntaf hwnnw yn egluro pam ei fod wedi gadael y coleg cyn cwblhau ei radd i ymuno â'r fyddin. Yn 1915 mae Dafydd yn symud i wersyll milwrol Morn Hill yng Nghaerwynt (Winchester) ac unwaith eto nid yn unig y cawn ddarlun o'i gyfnod yno ond cawn hefyd flas o hanes y gwersyll hyd heddiw a thaith o gwmpas dinas hanesyddol Caerwynt. Yna, mae'r 'bererindod' yn mynd a ni i Goleg Camberley yn Llundain ble mae Dafydd yn derbyn hyfforddiant ar gyfer bod yn Gapten cyn teithio i ffosydd Ffrainc ar fore'r ail o Ragfyr 1915. Mae'r frawddeg hon ar ddiwedd ei lythyr o bentre Gorre yn cyffwrdd â'r galon oherwydd ei bod yn adlewyrchu eironi'r cyfnod : '*Y mae yn ddiwrnod braf lle yr wyf yn aros heddyw. Diwrnod o wanwyn, blodau yn y caeau, prielli cochion yn llawn, adar yn canu, etto nid wyf o swn ein gynnau.* Ond y frawddeg hon mewn llythyr gan ei gyfaill at y teulu yw'r tristaf : *'Daeth drwy y frwydr yn ddianaf, ond pan yn dod allan o'r goedwig, disgynnodd shell ar ei bwys, ac er tristwch pawb, profodd y clwyf gafodd yn ei ochr yn farwol.'* Daw'r 'bererindod' i ben ar gyrion Coed Mametz.

Mi faswn i wedi hoffi cael mynegai i'r llyfr oherwydd bod gymaint o ffeithiau a chyfeiriadau difyr yn y gyfrol ond gwendid bach yw hynny a gellir lawrlwytho nodiadau ar gyfer pob pennod o wefan Gwasg Carreg Gwalch.

**Gareth William Jones**

Da deall fod ein hieuenctid yn ymddiddori yn y grefft gyntefig yma o hyd. Dymuniadau gorau I chi fel teulu.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mrs. Enid Jones, Awel Deg wrth iddi golli cyfnither ym marwolaeth Mrs. Mari Morgan, Llanrhystud yn ddiweddar.

Da hefyd oedd gweld chwaer Enid, Olwen ar raglen Ffermio ar nos Lun, hi a'u theulu yn ddiwyd a gweithgar wrth ffermio yn ardal Llangynin, ar bwys Sanclêr, Sir Gaerfyrddin.

**Diolch**

Dymuna Mrs. Anne James, Afallon ddiolch o galon i bawb am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra ar ei harhosiad yn yr ysbyty ym Mron-glais. Mae yn teimlo lawer yn well erbyn hyn.

Da deall eich bod yn gwella yn foddhaol iawn Anne, ac yn ymdrechu yn dda i ailgydio yn eich gorchwylion dyddiol.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Meinir Jones (Deiniol gynt) ar gael ei phenodi yn Bennaeth Ysgol Bro Allta, Ystrad Mynach. Mae Meinir wrth ei bodd yn darllen am ei bro genedigol ac yn darllen y Tincer yn rheolaidd. Rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**

Yn ystod mis Mawrth, yn dilyn gwahoddiad oddi wrth aelodau cangen Penrhyn-coch, ymunodd nifer o aelodau cangen Melindwr a Thal-y-bont â hwy er mwyn dathlu Gŵyl Ddewi. Y wraig wadd oedd y Cynghorydd Caryl Roberts. Rhoddodd ychydig o'i hanes cyn i bawb gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd ganddi er mwyn hybu pawb i gymdeithasu. Cafwyd tipyn o hwyl yn arbennig wrth flasu gwahanol fwydydd gan geisio dyfalu beth oeddynt. Diolch yn fawr i gangen Penrhyn-coch am y gwahoddiad ac am baratoi'n drylwyr ar ein cyfer.




Ar gyfer ein cyfarfod ym mis Ebrill ymgasglodd yr aelodau ar y prom o flaen Yr Hen Goleg yn Aberystwyth ar gyfer ein cyfarfod. Fe'n croesawyd yno gan Lynne Davies, ein llywydd a chyflwynodd hi ein siaradwr Jim O'Rourke. Cawsom ychydig o hanes y coleg a'r modd yr aed ati i wneud y paratoadau trylwyr ar gyfer ail ddatblygu'r adeilad. Bu'n rhaid ystyried anghenion y gymuned leol yn ogystal ag anghenion ymwelwyr wrth gynllunio a sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer y datblygiadau arfaethedig. Oherwydd bod yr adeilad wedi ei restru gan CADW rhaid oedd cadw at ofynion y corff hwnnw.

Wedi mynd o dan do, clywsom fwy am y cynlluniau ar gyfer yr adeilad a manylwyd ar y defnydd o'r gwahanol ystafelloedd ac adrannau.

Diolchwyd i Jim O'Rourke am brynhawn diddorol gan Lynne Davies. Wrth adael ein cyfarfod edrychai pawb ymlaen at yr adeg pan fydd y gwaith wedi dod i ben ac y bydd cyfle i ail ymweld â'r Hen Goleg.










## Bow Street

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00**
*Ebrill*
**23** Bugail
**30** Judith Morris

*Mai*
**7** Cymanfa ganu Seion Stryd y Popty
**14** Oedfa'r Ofalaeth – Sul Cymorth Cristnogol
**21** Bugail
**28** Bugail

**Noddfa**
(Pob Oedfa am 10.00)
*Ebrill*
**30** Richard Lewis

*Mai*
**7** Y Gymanfa yn Seion, Stryd y Popty
**14** Uno yn y Garn (Cymorth Cristnogol)
**21** Cyfeillach yng ngofal Arwel Geroge
**28** Richard Lewis

**Gwobr o fri i Felicity**

Llongyfarchiadau mawr i Felicity Roberts o Bow Street am iddi ennill y wobrYsbrydoli yn Adran Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion, a gyflwynir gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Mae Felicity yn Diwtor a Chydlynydd Cymraeg i Oedolion yn Dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mae wedi bod yn diwtor Cymraeg am dros hanner can mlynedd.

Un o Chwilog yn Eifionydd ydy hi yn wreiddiol fodd bynnag, ac fel y dywedodd wrth dderbyn ei gwobr yn y Senedd yng Nghaerdydd, bu ei magwraeth yn Chwilog yn ysbrydoliaeth iddi ar hyd ei hoes. Bu'n byw yn Bow Street ers 49 mlynedd ac yno y sefydlwyd y gangen gyntaf o CYD.

Wedi cyhoeddi erthygl Bobi jones 'Sut i Adfer y Gymraeg yn *Y Traethodydd* ym 1980, aethpwyd ati i sefydlu mudiad CYD i ddod â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yr iaith at ei gilydd i ddefnyddio'r iaith. Roedd gan Llinos Dafis rôl arweinyddol yn galw'r cyfarfod cyntaf yng Ngheredigion yn Aberaeron, ac yn Bow Street y cafwyd y cyfarfodydd cyntaf yn nalgylch Aberystwyth gyda rhai fel Linda Gay, Gaenor a Gareth Jones, Gwyn ac Ann Jones, yn ogystal a Jaci Taylor a Felicity yn rhoi gweithgareddau ar waith.

Bellach dosbarthiadau gloywi iaith yn unig mae yn eu dysgu, a hynny drwy 'Zoom', ac mae paratoi pobl ar gyfer sefyll arholiadau i gael dod yn aelodau o Orsedd y Beirdd yn rhan o'r gwaith a wna. Mae gweld y bobl hyn yn cael eu derbyn i'r Orsedd yn un o'r pethau sydd yn rhoi llawer o foddhad iddi. Wedi blynyddoedd o ymdrech a gwaith caled maent wedi cyrraedd y brig, ac yn gwbl haeddiannol o gael eu cyfrif ymhlith



rhengoedd siaradwyr Cymraeg diwylliedig ein cenedl. Yn Eisteddfod Ceredigion y llynedd cafodd pump a fu'n astudio gyda hi eu derbyn.

Roedd hefyd yn brofiad arbennig iawn iddi gael Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg i Oedolion, yn cyflwyno'r Tlws a'r Dystysgrif iddi yn y Senedd yng Nghaerdydd. Wrth gyflwyno'r wobr dywedodd bod arni eisiau diolch iddi nid yn unig am y gwaith ar ran y sector Cymraeg i Oedolion ond hefyd yn bersonol fel cyn-fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd Helen wedi dilyn y modiwl gradd Crefft Adfer Iaith am ddwy flynedd gyda Felicity sy'n ymfalchïo'n fawr yn ei llwyddiant hi a'r gwaith arweinyddol gwych y mae hi'n ei wneud.

Bu'n westai ar Pnawn Da ar 12 Ebrill.



## Mis Mawrth yn y Garn

Ymunodd cynulleidfa Capel Noddfa i addoli gydag aelodau'r Garn fore Mawrth 5ed, mewn gwasanaeth dan arweiniad y Parchg Wyn Morris, Penrhyn-coch. Yn y rhannau agoriadol cyd-gyflwynodd aelodau o'r ddwy gynulleidfa raglen Dydd Gweddi'r Byd, a oedd wedi ei llunio eleni gan ferched Taiwan. Y Parchedig Watcyn James fu'n arwain yr addoliad y tri Sul canlynol. Cyn dechrau'r oedfa ar Fawrth 26ain cyflwynwyd cyfraniad gan Gapel y Garn at Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais i Mrs Bridget Harpwood.

Dathlodd Cymdeithas y Chwiorydd Ŵyl Ddewi drwy gael cinio gyda'n gilydd ym Mwyty Crefftau Pennau ar Fawrth y cyntaf.

Mair Tomos Ifans fu'n llonni ac adlonni cyfarfod Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas Lenyddol ar Fawrth 17eg, gyda gwledd o ganu, cyd-ganu, a chwedleua. Yn Paned a Chlonc ar zoom ar Fawrth 16eg cyflwynodd yr Athro Gruffydd Aled Williams ni i'r anghydffurfiwr a'r cenedlaetholwr Walter Brut, Cymro o Swydd Henffordd, a fu ar brawf yn 1391 am herio rhai agweddau ar fywyd yr eglwys yn ei ddydd. Fe'i dienyddwyd wedyn yn 1402 am gefnogi Owain Glyndwr.





## Noddfa

Fore Sul 9 Ebrill croesawyd Eirian Reynolds, Penrhyn-coch, atom i roi sgwrs am ei daith elusennol i Batagonia fis Tachwedd y llynedd, taith oedd wedi ei threfnu gan Marie Curie. Cawsom wledd o luniau ganddo o'r dirwedd hynod, ynghyd â sgwrs ddifyr am ei brofiadau. Taith o 84 km oedd hon, wedi'i chwblhau mewn 5 diwrnod. Tipyn o gamp! Mae Eirian wedi codi dros £4,200 o bunnoedd i'r elusen, ac aeth casgliad yr oedfa at Marie Curie hefyd. Cyn cloi, rhannodd Eirian beth o hanes yr elusen, sut y tyfodd hi, a phwysigrwydd ei gwaith yn ein cymdeithas heddiw, i gleifion a'u teuluoedd. Diolch yn fawr iddo am sgwrs ddiddorol dros ben.



**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Tegwyn a Sian Evans, Llanrhystud - gynt o Maes Afallen – ar enedigaeth ŵyr arall, sef Jac Richard i'w merch Cerys a Craig yn Llan-non; brawd i Harri a Gwenno.

**Meinir Lowry**
Ar Ionawr 30ain eleni, ym Mhlas Cwmcynfelin, bu farw Meinir Lowry, (Hughes gynt), Rhos-lan, Bow Street. Ganwyd Meinir ym mis Mehefin 1947 yn ferch i Tomi John ac Olwen Hughes a oedd yn byw yn Neuadd yr adeg honno. Y drws nesaf iddyn nhw, ym Mrynteg, roedd Sara Hughes, mam Tomi John yn byw, a'r ochr draw i'r ffordd i Neuadd a Brynteg roedd iard waith Tom Hughes, gŵr Sara a thad Tomi John, a oedd wedi marw yn 1923. (Pan oeddwn i'n blentyn Rhiw Tom Huws oedd yr enw cyffredin ar y rhiw sy'n mynd drwy ganol y pentref). Yn ogystal â bod yn ffermwr roedd Tom Hughes yn *haulier,* yn cario glo a nwyddau i'r gweithfeydd mwyn ac yn dod â mwyn yn ôl. Efalle y bydd rhai ohonom yn cofio clywed Meinir yn adrodd gyda balchder hanes ei thad-cu yn anfon dau o'i weithwyr gyda cheffylau – roedd ganddo 24 o geffylau – i nôl adeilad pren o Ddoc Penfro yn 1920, a dyna ddechreuad Neuadd Goffa Rhydypennau.

Cafodd Meinir ei magu ar fferm ynghanol y pentref; roedd hi'n perthyn i ddwy gymuned felly sef cymuned y pentref a'r gymuned amaethyddol. O ganlyniad roedd hi'n adnabod ei hardal yn drwyadl, o lwybrau troed a nentydd a chornentydd i rwydweithiau teuluol.

Ar ôl ei dyddiau yn ysgolion Rhydypennau ac Ardwyn aeth ymlaen i Brifysgol Bangor a graddio gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Er hynny athrawes Ffrangeg fu hi'r rhan fwyaf o'i hoes a hynny mewn ysgolion uwchradd yng ngogledd Lloegr a de Cymru.

Pan aeth ei thad gweddw yn ddibynnol, a hithau wedi claddu ei gŵr, Jack Lowry, daeth yn ôl adref. Bu'n gofalu'n dyner am ei thad hyd ddiwedd ei oes ac yn gwneud llawer iawn o bethau eraill yr un pryd. Bu'n un o olygyddion y *Geiriadur Cymraeg-Ffrangeg* a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Astudiaethau Addysg yn Aberystwyth; bu'n golygu copi ac yn prawf-ddarllen testunau llenyddol i'r Cyngor Llyfrau Cymraeg - doedd dim un gwall yn dianc rhag ei llygad!; bu hefyd yn diwtor yn eu cartrefi i blant na allai fynd i'r ysgol.

Ymdaflodd i fywyd y pentref gan wasanaethu ar nifer o bwyllgorau. Balchder mawr iddi oedd cael dod yn aelod o Gyngor Cymuned Tirymynach lle bu ei gwybodaeth am yr ardal yn ddefnyddiol iawn. Roedd ganddi farn gref a doedd hi ddim yn ofni ei mynegi. Roedd ailagor gorsaf rheilffordd Bow Street yn bwysig iawn iddi ac roedd hi'n ei theimlo hi'n fraint cael bod yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned pan ddaeth y gwaith hwnnw i ben. Yn anffodus fu dim agoriad swyddogol oherwydd y Covid.

Roedd drws bythol-agored yn Rhos-lan i'w ffrindiau a'i chyn-gydweithwyr o bell ac agos,, ac i aelodau ei theulu estynedig - yn ddisgynyddion i Deulu Tŷ Capel y Garn, neu, i fynd yn ôl un genhedlaeth yn rhagor, i Mari Dafis (m.1899), ei hen fam-gu, mam Sara. Oni bai am Meinir fyddwn i ddim wedi gallu cyfeirio fy ŵyr i at fedd Mari a Wiliam Dafis, ei hen hen hen fam-gu a thad-cu, ym mynwent Llanfihangel Genau'r-glyn, yn ddiweddar.

Mae Meinir hithau bellach wedi ymuno â'i gwreiddiau, gan adael bwlch mawr ar ei hôl. Mawr yw ein diolch i bawb fu'n esmwythau ei dyddiau olaf ym Mhlas Cwmcynfelin, ac yn ei chartref yn Rhos-lan cyn hynny. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag aelodau ei theulu a'i chyfeillion agos. Bu ein bywydau ni i gyd yn gyfoethocach o gael ei hadnabod.
**Llinos Dafis**

**Nain a Taid eto**
Llongyfarchiadau i Nerys a Dewi Hughes, Bod Hywel gynt, - Waunfawr erbyn hyn - ar enedigaeth Casi Alys ar 9 Mawrth – merch fach i Gethin ac Amy Hughes, Meisgyn – chwaer fach i Isobel Cari.

**Amser emosiynol**
Mae yn amser emosiynol iawn i Alun, Louisa a Sion Phillips, Maes Ceiro. Blwyddyn yn ôl i nawr fe gollwyd Rhydian Prys eu mab. Nid yw hiraeth yn ysgafnu dim. Mae Louisa yn cadarnhau hyn bob dydd gyda'i dagrau. Diolch i bawb am eu cydymdeimlad. Rhydian Prys am byth.

**Aelwyd Newydd**
Croeso mawr i Phil a Naomi a'r merched i rif 39 Maes Ceiro. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

**Cydymdeinlad**
Yr ydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â Jean, Rhian, Dorian, Lowri Elen a Tomos ar farwolaeth Iwan yn Ysbyty Tregaron ar 25 Mawrth. Bydd aelwyd Cnwc-y-Deintur, Maes y Garn, yn wag iawn heb Iwan ond mae'n sicr y bydd gan y teulu cyfan drysorfa o atgofion i'w trysori am byth. Yr oedd Iwan yn frodor o Bow Street ac wedi gwasanaethu ei gymuned ei gymdeithas a'i gapel yn helaeth ar hyd y blynyddoedd ac fe fydd gan lawer ohonom werthfawrogiad gwirioneddol o'i fywyd a'i waith.

**Clwb Pêl-droed Bow Street**
Llongyfarchiadau i Glwb Pêl-droed Bow Street sydd wedi cyrraedd ffeinal Cwpan Ardal y Gogledd ar ôl curo Llangefni ar giciau o'r smotyn.

**Ar Wella**
Mae'n dda cael ar ddeall bod Tom a Mag Corfield, 20 Maes Ceiro, ar wella ar ôl gorfod treulio cyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

## Dolau

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus hwyr arbennig i Ray Cash, Afallon, ar 17 Ebrill yn 80 oed.

y tincer
YTincer@googlemail.com

# Neuadd Rhydypennau

**Gwelliannau Arfaethedig 2023**
Mae Pwyllgor y Neuadd wedi cwblhau sawl gwelliant i gyfleusterau'r neuadd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Nawr maent am wneud gwelliannau pellach.

Mae dwy elfen i'r prosiect newydd:

**1) Ail-strwythuro'r toiledau a'r mannau storio.**

Bwriedir:

- Darparu cyfleusterau toiled newydd gyda gwelliannau yn cynnwys mynediad llawn i'r anabl yn ogystal â chyfleusterau newid babanod.
- Creu gofod preifat newydd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cwnsela, triniaethau, therapïau ayb. Byddai mynediad i'r stafell yn uniongyrchol o'r tu allan (er sicrhau preifatrwydd) yn ogystal â thrwy'r neuadd.
- Ail-strwythuro'r 'hen' doiledau i ddarparu mannau storio hyblyg.

**2) Ffrynt y Neuadd.**
Bwriedir:

- Gosod drysau newydd er mwyn gwella mynediad y Neuadd.
- Gosod ramp estynedig newydd ac ehangach er mwyn gwella mynediad i'r neuadd i holl aelodau'r gymuned.

Bydd y newidiadau hyn yn gostus ac ni ellir eu cwblhau heb gymorth grantiau. Mae'r Pwyllgor yn awyddus fod pobl yn cwblhau holiadur.

Ni chawn arian grantiau os na fyddwn wedi cysylltu â chi, a'ch bod chi'n cefnogi ein cynigion. Felly, os gwelwch yn dda, treuliwch ychydig o funudau i gwblhau'r holiadur welir ar Facebook. Diolch am eich cymorth.

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**




# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Ar y llethr rhwng ffermydd Tŷ-nant ac Allt-goch y Mynydd yng Nghwm Cyneiniog mae adfeilion *Brynfedwen Fawr* (SN705885) (sydd bellach yn gorlan), gyda *Brynfedwen Fach* (SN700885) ychydig yn is i lawr y dyffryn, ill dau yn gorwedd ar gwr coetiroedd â'r un enwau.




**Map Arolwg Ordnans 6" Ceredigion IV SW (1906)**
**© Arolwg Ordnans (100064713)**

Yn hanesyddol, defnyddiwyd y label *uchaf* hefyd am *Frynfedwen Fawr* am mai ef oedd uchaf i fyny'r dyffryn, er enghraifft cyfeirir ato yn ewyllys Lewis Evan Morris (LlGC SD 1704/93) fel *Tythin Bryn y Fedwen Ucha*. Serch hynny, ni welais unrhyw dystiolaeth bod *isaf* wedi ei ddefnyddio yng nghyd-destun *Brynfedwen Fach*.

'Does dim byd nodedig am yr enwau hyn, a dim angen i mi esbonio'u hystyr, heblaw nodi efallai mai ffordd o wahaniaethu rhwng dau annedd yw'r ansoddeiriau *mawr* ac *uchaf* ar y naill law, a *bach* ar y llall, yn hytrach na bod yno ddwy goeden fedw.

Fodd bynnag, mae'n werth sylwi ar y cyfeiriad cynharaf at yr enw mewn gweithred wedi ei dyddio 13 Awst 1673 yng nghofnodion stad Hendrefelen, Ystradmeurig (LlGC). Yr hyn sy'n arbennig am y ddogfen honno yw ei bod yn cynnig enw amgen, a hynny, mae'n debyg, er mwyn osgoi unrhyw amwysedd:

Tythyn Bryn y fedwen vcha alias Tythyn i Prisk llygeidoge

*Prysg* yn yr ystyr 'clwstwr o goed mân, celli, planhigfa' sydd yn yr ail enw, gyda *llygeid(i)og* yn gyfuniad o *llygaid* (ffurf luosog *llygad*) a'r terfyniad ansoddeiriol *-(i)og*.

Ystyr arferol y gair *llygeidiog* yw 'a chanddo lygaid' neu 'llawn llygaid', ond gall hefyd olygu 'a chanddo dyllau, pantiau, neu farciau tebyg i lygaid, smotiog, brechlyd'. Tybed felly a oedd y coed a dyfai yn y *Prysg Llygeidiog* yn unigryw am fod tyllau neu bantiau amlwg ynddynt? Posibilrwydd arall yw bod cen neu fwsogl yn tyfu'n glytiau ar y canghennau gan roi'r argraff o smotiau, neu fod afiechyd yn golygu bod brech ar y rhisgl. Fedrwn ni ond dyfalu!

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

# Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2023

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch nos Wener 21 Ebrill am 4.00 (cystadleuwyr lleol) a dydd Sadwrn 22 Mawrth am 1.00 a 6.00 (dwy sesiwn agored). Mae dyddiad yr eisteddfod yn amrywio yn flynyddol oherwydd y Pasg – a methwyd ei chynnal yn 2020, 2021 a 202 oherwydd cofid. Y beirniaid eleni fydd : nos Wener – Bethan Ruth, Machynlleth (cerdd); Carwyn Hawkins, Caerdydd, (Llefaru). Dydd Sadwrn: Arfon Williams, Cwmtirmynach (Cerdd); Ian Lloyd Hughes, y Bala (Llefaru) a'r Prifardd Emyr Lewis, Aberystwyth (Llenyddiaeth). Y cyfeilydd fydd Lona Phillips, Abermagwr a'r Llywyddion - Mark Roberts Penrhyn-coch (Nos Wener) ; Mrs Gillian Saunders Jones, Llandre, (Pnawn Sadwrn) a Lowri Guy, Caerdydd (Nos Sadwrn). Gan fod ysgoliopn Penrhyn-coch a Phen-llwyn wedi ffederaleiddio mae hawl gan blant Cylch Meithrin ac Ysgol Pen-llwyn i gystadlu eleni am y tro cyntaf ar y nos Wener.

Bu'r cystadlu brwd arferol ar y cystadlaethau llenyddol. Rhodd yr Eisteddfod yw gwobr ariaannol a'r gadair fach eleni – wnaethpwyd gan y crefftwr Keith Morris, Penrhyn-coch. Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell yn ymateb i unrhyw waith celf a daeth deg ymgsis i law. Bydd seremoni y Cadeirio tua 8 o'r gloch. Nos Sadwrn.

Gwobrwyir Tlws yr Ifanc (dan 21 oed) - a roddir eleni eto - gan Aaron ac Ashley Stephens, - ar y nos Wener. Tro llenyddiaeth yw hi eleni ac fe'i rhoddir am y testun 'Ailwylltio': ie neu nage.

Dewch i gefnogi un o eisteddfodau lleol Ceredigion, sefydlwyd ym 1964.

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyncommunitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 27.03.2023 yn Ysgoldy Bethlehem, Debyniwyd 1 ymddiheuriad.
(Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:
- Ymghynghoriad Hywel Dda
- Coeden Geirios wedi'i derbyn
- Coed i'w plannu yn y Parc
- Gwath i ddechrau ar y Cylchlythyr nesaf
- Pryderon Rali Bae Ceredigion
- Ceir yn parcio ar y palmant

**Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd talu: Cyflog y Clerc, HMRC, Treuliau Banc, Coeden Geirios
- **Parc a'r Cyrtiau Tenis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu'r parc. Trafodaethau gyda cwmnïau i ddarparu offer. Trafodaethau gyda Cyngor Sir Ceredigion yn parhau yng Les yr ardal. Plannu coed yn y parc.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 24 Ebrill 2023 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com


BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

James Memorials
Am GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod Ysgol**
Cynhaliwyd ein Eisteddfod ysgol eleni ar y 29ain o Fawrth. Cafwyd cystadlaethau canu, llefaru a chwarae offeryn, ac yn ystod yr wythnosau yn arwain at y dydd fuodd plant y meithrin i flwyddyn 5 yn brysur yn cwblhau tasgau celf o fewn eu dosbarth. Mi fuodd plant blwyddyn 6 yn ysgrifennu cerddi ar gyfer cystadleuaeth 'y Gadair. 'Gwanwyn' oedd y thema eleni; a gwaith digon anodd oedd gan y beirniad gan fod ansawdd y cerddi yn arbennig o dda; ond, ar ganiad y corn, Mirain Evans a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Mirain. Da iawn hefyd i Jac Myrddin am ddod yn ail ac i Ted Jones a Gwen Freeman am rannu'r trydydd safle.

Ar ddiwedd diwrnod llawn cyffro, roedd pwyntiau'r tri thŷ yn agos iawn; ond Eleri a gariodd y dydd yn y pen draw; Rheidol yn ail ac Ystwyth yn drydydd. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb - sef Mrs Llinos Bonsall a Mrs Alwen Fanning. Diolch i Gwenallt Llwyd Ifan am feirniadu cystadleuaeth Y Gadair ac i Mrs Helen Jones am feirniadu'r gwaith celf. Mi fydd Cerdd Mirain a rhagor o luniau i'w gweld yn rhifyn nesa'r Tincer.

**Eisteddfod Yr Urdd**
Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd yn ddiweddar. Diolch o waelod calon i bob un plentyn a fu wrthi yn brysur yn dysgu geiriau ac yn ymarfer pob amser chwarae ar gyfer cystadlu boed yn unigol neu mewn parti. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r Parti Cerdd Dant am lwyddo i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri. Canmoliaeth mawr hefyd i'r parti unsain am gipio'r ail wobr a da iawn hefyd i Elinor Jenkins Blwyddyn 3 am ei pherfformiad yn y gystadleuaeth canu unawd. Ardderchog!

**Ymweliadau a gweithgareddau**
Yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 5 a 6 dreulio bore yn y Brifysgol yn dathlu 'Wythnos Gwyddoniaeth'. Profodd y plant nifer o weithgareddau diddorol iawn a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn.

Diolch yn fawr iawn i Phillip Thomas y fet am alw mewn i'r dosbarth Meithrin yn ddiweddar. Cafodd y plant fore difyr iawn yn ei gwmni.

Ar y 24ain o Ebrill, braint o'r mwyaf oedd croesawu Tim Peake i'r ysgol. Yn ystod bore cyffrous iawn i'r plant a'r staff, llofnododd nifer fawr o lyfrau i'r plant a chafwyd cyfle i holi cwestiynau iddo am ei brofiadau yn hedfan mewn roced a threulio amser yn y gofod. Diolch yn fawr iawn i Mrs Herron am drefnu'r achlysur bythgofiadwy hwn.

Da iawn i bawb fuodd yn cerdded i'r ysgol yn ddiweddar fel rhan o broject SUSTRANS i ofalu am yr amgylchedd. Diolch i Mr Rees am drefnu'r ddau fore cerdded; o'r Orsaf ar waelod y pentref ac o Barc Llandre.

Diolch yn fawr iawn i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r Noson Bingo diweddar. Codwyd dros £400 tuag at goffre'r ysgol. Campus!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*


Bws Cerdded yn yr Orsaf


Noson Bingo


Phil y Fet gyda'r dosbarth Meithrin


Y Parti Cerdd Dant


Y Parti Unsain


Wythnos Gwyddoniaeth

# Ysgol **Craig yr Wylfa**











**Ymweliad â Llain**

Does dim dwywaith bod Covid a'r Cyfnod Clo wedi cael effaith ar yr hyn rydym wedi gallu ei gynnig i'r plant dros y blynyddoedd diwethaf. Un peth sicr a gafodd ei effeithio oedd ymweliadau preswyl, felly roedd hi'n hen bryd i ddisgyblion hynaf yr ysgol gael mynd i aros dros nos yng Nghanolfan Antur Llain. Dyma argraffiadau'r plant o'r gweithgareddau –

Roeddwn i wedi hoffi gwneud y saethyddiaeth achos roedd yn rhywbeth newydd i fi – Tegan

Roeddwn i wedi hoffi y canwio. Fi oedd "Y Blaidd" yn y gêm i ddal pawb arall – Jayden

Y canwio oedd fy hoff beth i hefyd. Roeddwn i wedi hoffi ymlacio yn yr haul – Tyler

Roedd dringo'r wal yn gymaint o hwyl. Doeddwn i ddim wedi bod mor uchel erioed! – Liam

Hoffais i ddringo'r rhaffau uchel. Roeddwn i'n nerfus iawn i ddechrau, ond roeddwn i wedi mwynhau yn y diwedd – Noah

Y mudrun nes i fwynhau mwyaf. Roedd hi'n hwyl i nofio mewn mwd! – Fin

Y mudrun oedd fy hoff weithgaredd i hefyd. Ges i lawer o hwyl yn mynd o gwmpas y cwrs antur – Iyla.

Diolch yn fawr i Miss Griffiths am fynd gyda'r plant a gofalu amdanynt.

**Yr Ysgol yn y Gymuned Gwasanaeth y Pasg**

Hosanna i Fab Dafydd Bendigedig yw yr Un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y Goruchaf.

Ar ddiwrnod olaf Tymor y Gwanwyn, bu plant yr ysgol yn cynnal gwasanaeth yn Eglwys Sant Matthew, Y Borth. Diolch yn fawr i Mr Bee am y gwahoddiad ac am drefnu'r gwasanaeth ac i'r gynulleidfa am gefnogi. Diolch arbennig i Margaret Griffiths am drefnu'r helfa wyau ac roedd y plant wrth eu boddau o gael wy Pasg fel anrheg am eu gwaith da.

**Ramadan**

Hoffwn i ddiolch o galon i Taghrid Al-Mawed am ddod atom i drafod yr arferion a'r defodau sydd ynghlwm â Ramadan. Roedd hyn yn berthnasol iawn gan fod cyfnod Ramadan wedi bod yn ystod mis Mawrth eleni. Roedd clywed ei phrofiadau personol yn sicr wedi taro tant gyda'r plant.

**Ffair Wyddoniaeth**

Mae'r plant yn hoff o ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth bob blwyddyn. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth. Roedd hi'n hwyl i grwydro o gwmpas y stondinau a chyflawni'r heriau gwahanol. Diolch i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad.

**Cystadleuaeth y Pasg**

Cafwyd ymateb ardderchog i'n cystadleuaeth addurno wyau eleni. Roedd ymdrechion llawer o'r plant yn anhygoel. Da iawn chi i gyd.

Dyma'r enillwyr –

Dosbarth Mrs Edwards

1. Woody a Tommy
2. Mai
3. Emmy

Dosbarth Miss Hughes

1. Jayden
2. Ellie
3. Noah

**Siarter Iaith**

Mae disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa wedi cydweithio gyda Chwmni CISP Multimedia yn y gorffennol ac roedd hi'n hyfryd ailgydio yn y berthynas yn ddiweddar wrth groesawu Beth atom dros TEAMS i gynnal gweithdy ar greu panel comic i'r ysgol. Y tro yma y testun oedd Hen Wrach Cors Fochno ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld y panel terfynol yn yr ysgol mae o law.

**Ysgol Iach**

Mae Ray Ceredigion wedi parhau i ymweld yn ystod y mis ac rydym wedi cael llawer o hwyl yn eu cwmni. Diolch yn fawr i'r staff am hybu'r gweithgareddau mewn ffordd hwyliog.

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Sesiynau beicio**
Cafwyd pythefnos lwyddiannus iawn wrth I ni gefnogi ymgyrch 'Strolio a Rolio' Sustrans. Hyfryd i weld cymaint o ddisgyblion a rhieni yn beicio a sgwtera i'r Ysgol.Da iawn chi gyd.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau I'r criw o ferched a ddysgodd y darn 'Merched Beca' i'r gystadleuaeth Parti Llefaru i Eisteddfod yr Urdd Cylch Aberystwyth. Dyma 'r tro cyntaf iddyn nhw gystadlu ac roeddent wedi perfformio yn ardderchog - da iawn Manon, Llinos, Anwen, Gwen, Talys, Ava, Bella, Megan ac Erin.

**Arddangosfa Mary Lloyd Jones**
Bu dosbarth 2 yn ffodus iawn i ymweld ag arddangosfa artist lleol Mary Lloyd Jones yng Nghanolfan y Celfyddydau. Fe wnaeth y plant fwynhau edrych ar ddarnau o gelf yn ogystal a dysgu llawer am y steil. Rhoddwyd y cyfle i'r plant arbrofi a chreu darn o waith haniaethol eu hun.

**Eisteddfod E-Sgol**
Cafon ni gyfle arbennig eleni i fod yn rhan o'r E-steddfod o dan gynllun/rhaglen E-sgol a braf oedd rhannu'r diwrnod gyda Ysgol Felin-fach, Rhos y Wlad a Llangeitho. Roedd y cwbwl wedi ei drefnu yn ofalus iawn gan Llifon John Elis ac roedd yn brofiad arbennig i gystadlu ar lein trwy'r dydd. Cafon ni ganlyniadau arbennig yn ystod y dydd ond yr uchafbwynt oedd gweld Manon Lewis o flwyddyn 6 yn ennill y gadair! Roedd Manon wrth ei bodd. Uchafbwynt arall oedd ennill y Cor wrth i ni ganu 'Ni yw y byd'. Dywedodd y beirniad - Steffan Prys - bod y disgyblion yn canu yn angerddol ac wir i chi roedd pob disgybl o'r derbyn i flwyddyn 6 yn joio!! Hoffwn longyfarch pob disgybl am wneud eu gorau wrth gystadlu yn unigol neu mewn grŵp.

**Prynhawn agored yn y Cyfnod Sylfaen**
Agorwyd ein drysau i'r gymuned am brynhawn cyfan er mwyn croesawu teuluoedd newydd atom. Braf oedd cwrdd a theuluoedd newydd ac wrth gwrs rheini presennol sydd ganddom. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn arddangos yr ardaloedd yn ein dosbarth ac roedd yn gyfle i'r rheini fedru gweld tasgau ffocws penodol. Roedd nifer yn mwynhau y gweithgreddau crefft rhai yn codi canu ac ambell un yn joio heriau mathemateg! Byddwn yn croesawu pedwar disgybl newydd ar ôl y gwyliau Pasg-roeddent wedi mwynhau ganddom wrth ddod i weld yr Ysgol yn ein prynhawn agored. Byddwn yn cynnal prynhawn arall ym mis Mai felly bydd y croeso yr un fath eto os ydych eisiau dod i gwrdd â'r staff a'r disgyblion.


















# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Dydd Gŵyl Ddewi**
Roedd y plant wedi gwisgo'n smart iawn ar ddiwrnod Dydd Gŵyl Ddewi a chafwyd cyfle i ddysgu am hanes Dewi Sant. Roedd llawer o weithgareddau yn y dosbarthiadau ac yn ddiwrnod i ddathlu fod yn Gymreig!

**Gwlân**
Mwynheuodd y plant ddysgu am yr Arglwyddes Llanofer. Diolch yn fawr i Theatr Mewn Cymeriad ac i Catrin am sioe hynod o ddiddorol. Dysgwyd llawer am hanes yr Arglwyddes Llanofer, y proses gwlân a chanu caneuon am wlân.

**Chwaethus**
Yn dilyn sbardun y sioe, cawsant alwad Teams gan Caryl o gwmni Chwaethus yn dysgu ni sut i greu Ladis Cymraeg. Cafodd y plant wythnos o ddewis, dethol ac arbrofi gyda deunyddiau Cymraeg cyn mynd ati i greu Ladi Cymreig yn efelychu gwaith Caryl.

**Diwrnod y Llyfr**
Cawsant ddiwrnod a hanner yn dathlu llyfrau gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o straeon Cymraeg. Aeth blwyddyn 1 a 2 ati i greu fideos gan ddefnyddio meddalwedd Creative Cloud i gyflwyno gwrthrychau Cymreig a dathlu Cymreictod. Canolbwyntiodd dosbarth 1 ar straeon traddodiadol a gwneud llawer o weithgareddau diddorol a trawsgwricwlaidd ar y thema.

Roedd y plant wedi cael cyfle i wrando ar nifer o storïau yn ystod y dydd - gan bleidleisio a dewis eu hoff lyfr.

**Wythnos Crefyddau'r Byd**
Fel rhan o'n dathliadau Crefyddau'r Byd, daeth dosbarth 1 Pen-llwyn draw atom i ddathlu'r Crefyddau Hindŵaeth, Bwdhaeth ac Iddewiaeth. Cafodd y plant ddiwrnod arbennig yn edrych ar arteffactau, coginio, gweithgareddau crefftus, myfyrio a dawnsio!

Gwnaeth CA2 ymchwil ar Gristnogaeth a chrefydd arall o'u dewis a chymharu y ddau. Hefyd, edrych ar ddathliadau'r Pasg a dysgu geirfa'r Pasg yn Ffrangeg.

**PC Diana Boyt**
Diolch i PC Diana Boyt am roi gwers i Fl 3 a 4 am seibrfwlio.

**Eisteddfod Gylch yr Urdd Aberystwyth**
Clod i Mabli am gymryd rhan yn y gystadleuaeth Llefaru Unigol B 3 a 4 yn yr Eisteddfod Gylch. Da iawn ti a mawr obeithiwn bydd y profiad yn dy sbarduno i roi tro arni y flwyddyn nesaf.

**Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion**
Llongyfarchiadau ENFAWR i griw dawnsio creadigol yr ysgol am ddod yn 3ydd yn Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi ar yr 21ain o Fawrth ar y thema Lliwiau. Diolch o galon i Anna ap Robert am roi o'i hamser i'w hyfforddi.

**Cyngerdd Mawreddog Ceredigion**
Roedd yn braf gweld Harri yn cymryd rhan yn y cyngerdd arbennig yma ar y soddgrwth. Roedd y perfformiadau yn bleser o'r mwyaf i weld cerddoriaeth yn ffynnu yng Ngheredigion.

**Strolio a Rolio SUSTRANS**
Cafwyd sawl diwrnod o fwynhau gweithgareddau beicio, sglefrio, sgwtera a cherdded ar fuarth yr ysgol yn ystod wythnos Strolio a Rolio SUSTRANS.

**Diwrnod Trwynau Coch**
Dathlwyd diwrnod trwynau coch eleni drwy rannu jôcs yn ein dosbarthiadau. Hyfryd oedd clywed chwerthin uchel y plant a'r staff!

**Ymgyrch Dosbarth 3**
Mae plant Dosbarth 3 wedi bod yn du hwnt



o brysur yn ystod yr hanner tymor gydag ymgyrch pwysig o berswadio pobl Penrhyn-coch i yrru'n ofalus o gwmpas y pentref.

Yn gyntaf fe aeth y dosbarth o gwmpas y pentref er mwyn gwybod beth oedd y rheolau cyflymder. Yna dyma'r dosbarth yn mynd ati i greu holiadur ar 'Forms' i gasglu barn rhieni'r Ysgol. Wedyn, fe aeth y plant i holi trigolion y pentref beth oedd eu safbwyntiau nhw. Wedi derbyn adborth yr holiaduron a safbwyntiau'r trigolion aeth y plant ati i ddadansoddi'r data. Roedd yn amlwg o'r canlyniadau bod trigolion a rhieni Ysgol Penrhyn-coch yn credu bod gyrru'n gyflym o gwmpas Penrhyn-coch yn bryder. Felly dyma'r dosbarth yn mynd ati i feddwl am syniadau gwahanol ar sut i berswadio pobl i yrru'n ofalus. Penderfynwyd creu pamffledi a phosteri - bu'r dosbarth yn gweithio'n galed i gynhyrchu'r rhain ac yna eu dosbarthu o gwmpas y pentref. Syniad arall oedd creu bwgan brain i osod wrth giât yr Ysgol er mwyn annog gyrwyr i arafu lawr wrth yr Ysgol. Diolch yn fawr iawn i Mrs Lowri Emlyn am ddod mewn i helpu'r plant gyda'i chynlluniau i greu bwgan brain. Mae'r dosbarth gwir wedi mwynhau'r ymgyrch ac mi fydd yr ymgyrch yn parhau ar ôl hanner tymor!







**AR Y CYD**
Sesiwn Cymorth Cyntaf ac Arwyddiaith
Diolch i Catrin New Directions am drefnu sesiwn Cymorth Cyntaf a gwers Arwyddiaith i ddisgyblion CA2. Fe wnaethon nhw fwynhau y sesiynau yn fawr iawn yn enwedig dysgu arwyddo i'r gân 'It's a wonderful World' yn fawr iawn.

**Ffair Wyddoniaeth**
I ddathlu wythnos gwyddoniaeth mwynhaodd bl 5 a 6 y ddwy ysgol y profiad o fynd i ffair wyddoniaeth a gynhaliwyd gan Prifysgol Aberystwyth. Roedd amrywiaeth o weithgareddau yno i ddiddori'r plant. Diolch yn fawr iawn i Adran Gwyddoniaeth y Brifysgol am drefnu.


# Tasg y Tincer

Mae'n amlwg fod plant ardal *Y Tincer* yn mwynhau lluniau dilyn-y-dot – daeth pentwr drwy'r post, a phawb wedi gweld y gwningen yn dal wy Pasg. Da iawn chi, a diolch am liwio! Dyma'r arlunwyr: Elsi Wynn Lewis, Capel Bangor; Gwenno ap Llywelyn, Capel Madog; Alys Gwenllian, Bow Street; Tesni Davies, Llanilar; Elinor Jenkins, Y Borth; Ifan, Penrhyn-coch; Iestyn, Tirion a Carian Evans, Y Borth; Caio Lewis, Tal-y-bont.


Alys

Dy lun di, Alys Gwenllian, ddaeth allan o fy het yn gynta. Llongyfarchiadau mawr! Daliwch ati, bawb – mae'n bleser cael derbyn eich lluniau.

Mae bron iawn yn fis Mai – mis clychau'r gog! Cofiwch fynd am dro i Goedwig Gogerddan i'w gweld. Beth am ddathlu Calan Mai i groesawu'r gwanwyn? Flynyddoedd yn ôl roedd hon yn ŵyl bwysig. Byddai pobl yn addurno'u tai â blodau'r ddraenen wen, ac yn mynd i'r twmpath chwarae i ddawnsio a gwneud campau o bob math. Byddai eraill yn canu carolau Mai a rhai yn yfed medd, sef diod â mêl ynddo, neu win rhiwbob. Roedd rhai llefydd yn cynnau coelcerth fawr. Am gyffrous!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Gan eich bod mor dda gyda'r dotiau y tro diwetha, dyma un bach arall i chi – mae hwn yn fwy anodd! Anfonwch eich llun i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mai. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 458 | Ebrill 2023*